Cymwys ar gyfer y Dyfodol:

Y dewis cywir i Gymru

Adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad

Cynhyrchwyd ar gyfer Cymwysterau Cymru
gan Opinion Research Services
Awst 2021

Opinion Research Services

The Strand Abertawe SA1 1AF
01792 535300 | www.ors.org.uk | info@ors.org.uk

Yn yr un modd â'n holl astudiaethau, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn destun Telerau ac Amodau Contract Safonol Opinion Research Services.

Mae unrhyw ddatganiad i'r wasg neu gyhoeddiad o ganfyddiadau'r adroddiad hwn yn gofyn cymeradwyaeth ORS ymlaen llaw. Dim ond ar sail anghywirdeb neu gamliwio y gwrthodir cymeradwyaeth o'r fath.

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon yn unol ag ISO 20252:2012 ac ISO 9001:2008.

© Hawlfraint Awst 2021

Cynnwys

1. Geirfa 1

2. Cyflwyniad 2
   2.1. Cefndir 2
   2.2. Methodoleg 2

3. Y Celfyddydau Mynegiannol 3
   3.1. Cynnig 1 3
   3.2. Cynnig 2 5
   3.3. Cynnig 3 7
   3.4. Cynnig 4 9

4. Iechyd a Lles 11
   4.1. Cynnig 1 11
   4.2. Cynnig 2 13

5. Y Dyniaethau 15
   5.1. Cynnig 1 15
   5.2. Cynnig 2 17
   5.3. Cynnig 3 19

6. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu 21
   6.1. Cynnig 1 21
   6.2. Cynnig 2 23
   6.3. Cynnig 3 25
   6.4. Cynnig 4 27
   6.5. Cynnig 5 29
   6.6. Cynnig 6 31

7. Mathemateg a Rhifedd 33

7.1. Cynnig 1 33
7.2. Cynnig 2 35
7.3. Cynnig 3 37

8. Gwyddoniaeth a Thechnoleg 39
8.1. Cynnig 1 39
8.2. Cynnig 2 41
8.3. Cynnig 3 43
8.4. Cynnig 4 45

9. Sgiliau Cyfannol 47
9.1. Cynnig 1 47

10. Asesiad effaith 49
10.1. Cwestiwn effaith 1 49
10.2. Cwestiwn effaith 2 51
10.3. Cwestiwn effaith 3 53
10.4. Cwestiwn effaith 4 54
10.5. Cwestiwn effaith 5 56

1. Rhestr termau

Acronym / Gair allweddol	Diffiniad
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
Maes	Maes Dysgu a Phrofiad
BSL	Iaith Arwyddion Prydain
CEFR	Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd
FfCD	Fframwaith Cymhwysedd Digidol
SIY	Saesneg fel Iaith Ychwanegol
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
ADA	Asesiad Di-arholiad
UCD	Uned Cyfeirio Disgyblion
STEM	Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg

2. Cyflwyniad

2.1. Cefndir

Comisiynodd Cymwysterau Cymru Opinion Research Services (ORS) i gynnal yr ail ymgynghoriad yng nghyfres Cymwys ar gyfer y dyfodol yn rhan o'i adolygiad o'r prif gymwysterau a gymerir gan bobl ifanc 14 i 16 oed yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 27 Ionawr a 16 Ebrill 2021 (mae'r dogfennau ar gael yma).

Bu'r ymgynghoriad yn casglu barn am y prif gymwysterau gwneud-i-Gymru a ddylai fod ar gael i ysgolion. Bydd Cymwysterau Cymru wedyn yn ymgynghori ar gynnwys a dulliau asesu'r cymwysterau hyn a bydd yn sicrhau bod cymwysterau eraill ar gael ochr yn ochr â hwy.

Datblygodd Cymwysterau Cymru gynigion penodol ar gyfer yr ymgynghoriad a oedd yn cwmpasu'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad ('Meysydd'), fel y'u disgrifir yng Nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ('Canllawiau'r Cwricwlwm'[1]).

2.2. Methodoleg

Bu Cymwysterau Cymru yn hyrwyddo ac yn cylchredeg yr ymgynghoriad ac yn cynnal gweminarau ar-lein[2]. Cynhaliodd Youth Cymru rai digwyddiadau ar-lein ar gyfer pobl ifanc. Casglwyd ymatebion i'r ymgynghoriad yn bennaf drwy arolwg ar-lein. Roedd fersiynau ar-lein a PDF sy'n ystyriol o bobl ifanc (cryno) o'r arolwg hefyd ar gael. Roedd pob fersiwn o'r ymgynghoriad yn cynnwys yr un cwestiynau penagored a chaeedig craidd a chyfres o gwestiynau am effaith y cynigion.

Yn gyffredinol, cafwyd 1,501 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys:

- 1,033 (84%) o ymatebion i'r prif ymgynghoriad;
- 203 (16%) o ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n gyfeillgar i bobl ifanc; a
- 12 o ymatebion a gafwyd drwy e-bost, a 253 o ymatebion bron yn union yr un fath gan aelodau Cymdeithas yr Iaith[3] a oedd yn mynd i'r afael â chwestiynau'r Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn yr ymgynghoriad.

[1] Cwricwlwm i Gymru - Hwb (llyw.cymru)
[2] Mae rhagor o fanylion a recordiadau o'r gweminarau ar gael yma: Cymwysterau Cymru / Gweminarau Ymgynghori – Cymwys ar gyfer y dyfodol – y dewis cywir i Gymru
[3] Hafan | Cymdeithas yr Iaith

3. Y Celfyddydau Mynegiannol

3.1. Cynnig 1

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i adolygu a diwygio TGAU mewn Celf a Dylunio, Drama a Cherddoriaeth?

Ffigur 1: Lefel y cytundeb â phob pwnc yng nghynnig 1 o fewn Maes y Celfyddydau Mynegiannol



Atebodd tua 250 o bobl gwestiynau ar bob un o'r pynciau yn y cynnig hwn, yn amrywio o 246 ar gyfer Cerddoriaeth i 253 ar gyfer Celf a Dylunio. Roedd tua saith o bob deg yn cytuno â'r cynnig i adolygu a diwygio'r tri chymhwyster TGAU a drafodwyd. Roedd ychydig dros un o bob deg yn anghytuno â'r cynnig i ddiwygio Celf a Dylunio (11%) a Drama (11%), er i hyn godi i 14% ar gyfer Cerddoriaeth. Rhoddodd 60% (150 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Dyma amlinellu'r prif themâu a nodwyd yn eu sylwadau.

- Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr fod angen cadw TGAU Celf a Dylunio, TGAU Drama a TGAU Cerddoriaeth. Roeddent yn teimlo y byddai hyn yn annog diddordeb ym mhynciau'r celfyddydau mynegiannol; yn atal y pynciau rhag cael eu gwthio i'r ochr; ac yn helpu'r pynciau i gadw eu gwerth a'u hunaniaeth.

- Byddai cadw cymwysterau TGAU ar wahân ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol hefyd yn cefnogi dysgwyr i gael profiad eang; datblygu sgiliau gwerthfawr; a pharatoi ar gyfer cymwysterau a gyrfaoedd ôl-16 yn eu meysydd dewisol, nododd yr ymatebwyr.
- Roedd rhywfaint o deimlad y dylai'r modelau asesu ar gyfer y cymwysterau newydd arfaethedig yn y Maes fod yn fwy ymarferol nag ysgrifenedig er mwyn osgoi annog dysgwyr llai abl i beidio â chymryd rhan ac i adlewyrchu arfer mewn addysg bellach neu addysg uwch ac mewn gwaith.
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod angen diweddaru cymwysterau yn y Maes hwn. Roedd yr awgrymiadau ar gyfer cyflawni hyn yn cynnwys ymgorffori technoleg cerddoriaeth mewn TGAU Cerddoriaeth neu sicrhau ei bod ar gael fel TGAU ar wahân; ymgorffori gwaith cyfoes a thraddodiadol mewn TGAU Drama; a chynyddu parhad yn y cwricwlwm ac addysgeg[4] o *"Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 4*[5]".
- Teimlai rhai ymatebwyr nad yw'r cynnig yn cyd-fynd yn ddigonol â'r cwricwlwm newydd, gan awgrymu bod angen adolygiad mwy radical o'r cymwysterau yn y Maes.
- Teimlai rhai ymatebwyr y dylid ymgorffori technoleg a meddalwedd fodern wrth gyflwyno pynciau'r celfyddydau mynegiannol i wella sgiliau dysgwyr ac adlewyrchu arferion y diwydiant. Rhybuddiodd rhai na ddylai technoleg ddigidol fod yn *"rhagofyniad"*. Nododd rhai fod angen i bob ysgol gael yr un mynediad at gyllid, cymorth, offer a/neu staff a chyfleusterau arbenigol i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael at gymwysterau yn y Maes.
- Dywedodd ambell ymatebydd fod y TGAU Cerddoriaeth bresennol yn fwy addas i ddysgwyr o gefndiroedd *"dosbarth canol"*, ac y dylid ailystyried y cwricwlwm a'r dull asesu i gynnwys dysgwyr o bob cefndir.
- Teimlai un ymatebydd nad yw arholiad gwrando'r TGAU Cerddoriaeth bresennol yn addas ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Nododd un arall fod BTEC[6] Cerddoriaeth yn fwy addas ar gyfer dysgwyr llai galluog na TGAU Cerddoriaeth.

[4] Dull ac arfer yr addysgu.
[5] Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at "Gyfnodau Allweddol" yn eu hadborth. Nid yw Cyfnodau Allweddol yn nodwedd ar y Cwricwlwm i Gymru newydd, er eu bod yn nodwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol.
[6] Mae BTEC yn sefyll am y Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg. Cymwysterau arbenigol sy'n gysylltiedig â gwaith yw BTEC, sydd ar gael mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach a chanolfannau hyfforddi mewn ystod o sectorau.

3.2. Cynnig 2

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu TGAU newydd mewn Ffilm a'r Cyfryngau Digidol?

Ffigur 2: Lefel y cytundeb â chynnig 2 ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol



Ymatebodd cyfanswm o 243 o bobl i'r cwestiwn hwn a chytunodd y mwyafrif (77%) â'r cynnig. Roedd rhieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd, yn arbennig o gefnogol, a gweithwyr addysg proffesiynol oedd y lleiaf tebygol o gytuno'n gryf â chreu'r TGAU newydd hwn. Rhoddodd ychydig dros hanner (51%, 125 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y byddai TGAU mewn Ffilm a'r Cyfryngau Digidol yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau arbenigol i gefnogi astudiaethau a gyrfaoedd yn y dyfodol mewn diwydiannau ffilm a'r cyfryngau digidol. Pwysleisiodd ambell un fod yn rhaid ystyried llwybrau dilyniant i gymwysterau pellach os datblygir cymhwyster newydd.
- Roedd rhywfaint o deimlad bod y cymhwyster arfaethedig yn cyd-fynd yn dda â'r Cwricwlwm newydd i Gymru a chynllun Maes y Celfyddydau Mynegiannol, ond teimlai ambell un nad yw'r cynnig yn mynd yn ddigon pell.
- Teimlai rhai ymatebwyr y gallai ysgolion ei chael hi'n anodd darparu'r feddalwedd, y dechnoleg, yr offer a'r staff arbenigol sydd eu hangen i gyflwyno'r TGAU arfaethedig.
- Yn ôl rhai ymatebwyr, byddai TGAU mewn Ffilm a'r Cyfryngau Digidol o ddiddordeb mawr i ddysgwyr. Dywedwyd y gallai ddenu'r rhai nad ydynt yn berfformwyr, y rhai nad ydynt yn rhagori mewn pynciau fel y gwyddorau, a'r rhai y byddai'n well ganddynt astudio sawl agwedd ar astudiaethau'r cyfryngau.
- Pwysleisiodd ambell un y byddai angen dylunio'r cymhwyster i sicrhau ei fod yn cael yr un parch a'i fod o'r un gwerth â chymwysterau tebyg sydd ar gael mewn rhannau eraill o'r DU. Pwysleisiodd eraill y byddai angen cymryd gofal i osgoi dyblygu cymwysterau sy'n bodoli eisoes neu gyfuno pynciau anghydnaws.

- Roedd yr awgrymiadau ar gyfer y cymhwyster arfaethedig yn cynnwys sicrhau ei fod ar gael ochr yn ochr â phynciau cyflenwol ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol; sicrhau ei fod yn meithrin gwybodaeth a datblygu sgiliau; cynnwys arbenigwyr pwnc a chyflogwyr yn ei ddatblygiad; sicrhau ei fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg; ei wneud yn fodiwlaidd i'w wneud yn fwy addas i ddysgwyr llai galluog ac i alluogi dysgwyr i arbenigo yn y pwnc neu bynciau sy'n well ganddynt; a chanolbwyntio ar ddysgu mwy ymarferol yn hytrach na dysgu seiliedig ar theori.
- O ran cynnwys, awgrymodd ymatebwyr y dylai'r TGAU arfaethedig gynnwys cerddoriaeth (gan gynnwys cyfansoddiad, cynhyrchu ac effeithiau sain); celf a'r celfyddydau perfformio; dulliau amrywiol o ddefnyddio cyfryngau digidol; ac y dylai gysylltu'n glir â Meysydd eraill.

3.3. Cynnig 3

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i sicrhau bod dewis o gymwysterau sy'n asesu dawns yn parhau i fod ar gael i ddysgwyr ac ysgolion?

Ffigur 3: Lefel y cytundeb â chynnig 3 ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol



Roedd cyfanswm o 232 o bobl yn gweld gwerth i'r cynnig hwn, ac roedd yr ymateb cyffredinol yn gadarnhaol gyda thros ddau o bob tri o bobl (69%) yn cytuno. Ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol, cododd y cytundeb i 72% ond syrthiodd i 59% ymhlith dysgwyr.

Rhoddodd ychydig dros hanner (52%, 121 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

Gwnaeth llawer o'r rhai a gytunodd â'r cynnig hwn sylwadau arno yn seiliedig ar y camddealltwriaeth fod Cymwysterau Cymru wedi cynnig darparu TGAU gwneud-i-Gymru mewn Dawns., Roedd y rhan fwyaf o'r lleill a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn yn myfyrio ynghylch bwriad Cymwysterau Cymru i roi'r gorau i TGAU Dawns.

- Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai TGAU Dawns gael ei chynnig o hyd i ddysgwyr yng Nghymru. Roeddent yn teimlo y byddai cael gwared arni yn gwneud y pwnc yn llai hygyrch i ddysgwyr nad yw eu teuluoedd yn gallu fforddio talu am wersi dawns y tu allan i'r ysgol. Pwysleisiodd llawer y dylai TGAU Dawns gwneud-i-Gymru fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu na fyddai cynnig y TGAU Dawns a gynlluniwyd ar gyfer dysgwyr yn Lloegr i ddysgwyr yng Nghymru yn adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru newydd.
- Teimlai rhywfaint nad oes llawer iawn yn dewis astudio TGAU Dawns ar hyn o bryd am fod llawer o ysgolion yng Nghymru yn dewis peidio â'i chynnig; yn ei hymyleiddio yn eu cwricwla; neu'n annog dysgwyr i beidio â'i chymryd. Dywedwyd bod angen unioni hyn.
- Roedd rhai'n rhagweld y byddai'r galw am TGAU Dawns yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf. O ganlyniad, roeddent yn teimlo y dylid monitro

diddordeb dysgwyr mewn dawns a dylid adolygu'r penderfyniad i beidio â chreu TGAU newydd gwneud-i-Gymru.

- Yng nghyd-destun cadw TGAU Dawns, pwysleisiodd llawer o ymatebwyr ei gwerth ehangach i ddysgwyr (yn enwedig dysgwyr llai galluog a *"llai academaidd*", a'r rhai ag anableddau), i gymdeithas, ac i'r economi.
- Teimlai rhai y byddai peidio â chynnig TGAU Dawns yn cyfyngu ar ddysgwyr sydd am ddilyn astudiaethau pellach a gyrfaoedd mewn dawns. Pwysleisiodd eraill y byddai dysgwyr yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu â'r rhai mewn rhannau eraill o'r DU drwy'r cynnig i beidio â chreu TGAU Dawns gwneud-i-Gymru. Ar y llaw arall, roedd rhai o'r ymatebwyr fod y cynnig yn *"bragmatig",* a hynny'n seiliedig i raddau helaeth ar y nifer isel sy'n manteisio ar TGAU Dawns ar hyn o bryd.
- Teimlai rhai y dylid cynnig dawns fel pwnc annibynnol. Mynegodd eraill y dylid ei chynnig yn rhan o gymwysterau eraill fel TGAU Addysg Gorfforol (AG) neu'n rhan o gymhwyster celfyddydau mynegiannol neu gelfyddydau perfformio.
- Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch staffio TGAU Dawns.

3.4. Cynnig 4

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i barhau i roi dewis o gymwysterau i ysgolion yn y Celfyddydau Mynegiannol sy'n cynnig dull amlddisgyblaethol?

Ffigur 4: Lefel y cytundeb â chynnig 4 ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol



Ymatebodd ychydig yn llai o bobl i'r cynnig hwn, a 218 o ymatebion wedi dod i law. Fel gyda'r cynigion eraill ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol, roedd cefnogaeth eang i hwn, gyda saith o bob deg (70%) yn mynegi cytundeb. Dangosodd dysgwyr a gweithwyr addysg proffesiynol lefel debyg o gefnogaeth (70%).

Rhoddodd ychydig o dan hanner (48%, 105 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

Mae'n ymddangos bod llawer o'r rhai a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn wedi'i gamddeall, gan gredu mai'r cynnig oedd creu cymhwyster Celfyddydau Mynegiannol amlddisgyblaethol penodol gwneud-i-Gymru.

- Roedd llawer o'r rhai a gytunai â'r cynnig yn pwysleisio bod angen parhau i gynnig cymwysterau TGAU ar wahân yn y Celfyddydau Mynegiannol. Dywedasant mai'r rheswm am hyn oedd bod cymwysterau presennol eisoes yn cynnig cyfleoedd trawsgwricwlaidd; bod pynciau yn y Maes yn rhy wahanol i'w cyfuno; bod cynnig pynciau TGAU ar wahân o fewn y Maes yn paratoi dysgwyr yn dda i arbenigo ôl-16; ac y byddai gan ddysgwyr lai o ddiddordeb mewn astudio cymhwyster amlddisgyblaethol o'i gymharu â phynciau TGAU ar wahân.
- Roedd llawer o ymatebwyr yn ystyried bod parhau i gynnig dewis o bynciau yn y Maes yn hanfodol i annog dysgwyr i ddatblygu sgiliau, a'u cefnogi i symud ymlaen at astudiaeth bellach a'r byd gwaith.
- Teimlai rhai y gallai'r cynnig fod o fudd i ddysgwyr a oedd am arbenigo mewn pynciau o fewn y Maes neu'r rhai nad oeddent yn siŵr pa bynciau i arbenigo ynddynt.
- Dywedodd rhai y gallai'r cynnig helpu i sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru yn cael yr un mynediad at gwricwla'r celfyddydau mynegiannol â dysgwyr yng ngweddill y DU. Tynnodd eraill sylw at y ffaith y dylai cymwysterau'r

celfyddydau mynegiannol fod wedi'u gwneud i Gymru ac y dylent gynnwys ymagwedd arloesol at gynnwys ac asesu.

- Roedd rhywfaint o deimlad y dylid creu cymhwyster amlddisgyblaethol gwneud-i-Gymru yn y Maes, yn unol ag ethos y cwricwlwm newydd. Teimlai rhai ymatebwyr fod angen diwygio'r holl gymwysterau yn y Maes yn fwy helaeth.
- Rhesymau eraill a roddwyd dros gyflwyno cymhwyster amlddisgyblaethol oedd y gallai ehangu dewis dysgwyr o gymwysterau yn y Maes; y gallai helpu i gadw dewisiadau dysgwyr ar agor, gan ganiatáu iddynt brofi nifer o ddisgyblaethau celfyddydau mynegiannol a chynyddu eu creadigrwydd; ac y gallai fod yn addas i ddysgwyr llai galluog.
- I'r gwrthwyneb, nododd rhai ymatebwyr efallai na fydd cymhwyster amlddisgyblaethol yn y Maes yn cael ei werthfawrogi i'r un graddau â phynciau mwy sefydledig. Dywedodd eraill na fyddai'n cefnogi dysgwyr yn ddigon da i symud ymlaen i ddysgu ôl-16.
- Awgrymodd ymatebwyr y dylai cymwysterau o fewn y Maes gwmpasu dawns; elfennau cynhyrchu; a chynnwys sy'n benodol i Gymru a ffocws Cymreig.

4. Iechyd a Lles

4.1. Cynnig 1

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i beidio â chreu cymhwyster newydd a fyddai'n cefnogi cyflwyno'r Maes cyfan hwn?

Ffigur 5: Lefel y cytundeb â chynnig 1 ym Maes Iechyd a Lles



Ymatebodd cyfanswm o 270 o bobl i'r cynnig hwn. Roedd ychydig o dan ddau o bob tri (64%) yn cytuno ag ef yn gyffredinol. Roedd gwahaniaeth barn amlwg rhwng gweithwyr addysg proffesiynol a dysgwyr, gyda'r dysgwyr yn llai cefnogol: roedd llai na hanner (44%) y dysgwyr o blaid y cynnig o'u cymharu â 70% o'r gweithwyr addysg proffesiynol.

Rhoddodd ychydig dros hanner (51%, 138 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r Maes ganolbwyntio ar ddatblygiad personol dysgwyr yn hytrach nag ar gymhwyster. Teimlai eraill nad oes angen TGAU newydd oherwydd y gellid adolygu a diwygio cymwysterau presennol yn y Maes i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd neu am fod y cymwysterau presennol eisoes yn cynnig llwybrau at ddysgu pellach a gyrfaoedd; ac y gellid integreiddio iechyd a lles i rannau eraill o'r cwricwlwm, megis y Dystysgrif Her Sgiliau.

- O'r rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig ac a fynegodd y dylid creu cymhwyster newydd, teimlai rhai y byddai cymhwyster newydd yn helpu dysgwyr i symud ymlaen i astudio pellach a gyrfaoedd yn y Maes; ac y byddai'n cefnogi eu hiechyd a'u lles.

- Teimlai rhai ymatebwyr y gallai peidio â chael cymhwyster newydd ddibrisio'r Maes. Roedd eraill yn cydnabod y gallai leihau diddordeb dysgwyr yn y Maes

a’u hymrwymiad iddo, er bod rhai wedi mynegi'r farn groes. Teimlwyd hefyd efallai na fydd rhai ysgolion yn diweddaru eu dulliau addysgu a dysgu os na chaiff cymhwyster newydd ei greu.

- P'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig ei hun, amlygodd y rhan fwyaf o ymatebwyr fod angen dull trawsgwricwlaidd ac amlddisgyblaethol o addysgu a dysgu yn y Maes. Mynegodd rhai o'r rhai o blaid cymhwyster newydd y byddai hyn yn helpu i flaenoriaethu iechyd a lles o fewn cwricwla ysgolion. Yn yr un modd, teimlai eraill y byddai creu cymhwyster newydd yn adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar iechyd a lles o fewn y cwricwlwm newydd.

- Dywedodd rhai o'r rheini a gytunai â'r cynnig fod y Maes Iechyd a Lles yn rhy eang i'w gwmpasu gan un cymhwyster. Pwysleisiodd eraill yr angen i gadw'r cymwysterau presennol o fewn y Maes i feithrin gwybodaeth a sgiliau dysgwyr.

- Byddai asesu cynnydd dysgwyr yn wrthrychol mewn Maes eang fel Iechyd a Lles yn anodd a gallai fychanu datblygiad iechyd a lles dysgwyr, yn ôl rhai ymatebwyr a gefnogodd y cynnig.

4.2. Cynnig 2

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i adolygu a diwygio TGAU mewn Bwyd a Maeth, Addysg Gorfforol, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant?

Ffigur 6: Lefel y cytundeb â phob pwnc sydd yng nghynnig 2 o fewn y Maes Iechyd a Lles



Atebodd tua 240 o bobl gwestiynau ar bob un o'r pynciau yn y cynnig hwn, yn amrywio o 237 ar gyfer Bwyd a Maeth i 242 ar gyfer Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant. Roedd saith o bob deg (71%) yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Bwyd a Maeth ac Addysg Gorfforol tra bod 66% yn cefnogi adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant. Cafwyd yr anghytundeb mwyaf ar gyfer Addysg Gorfforol, lle'r oedd 13% o'r ymatebwyr yn anghytuno.

Rhoddodd 94 o ymatebwyr (39% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn) sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

- Bu rhai ymatebwyr yn myfyrio ynghylch yr angen i gadw cymwysterau TGAU ar wahân mewn Addysg Gorfforol, Bwyd a Maeth, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant. Mynegwyd y byddai hyn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth yn eu harbenigeddau dewisol, a symud ymlaen at ddysgu a gyrfaoedd pellach.

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen adolygu a diwygio cymwysterau cyfredol yn y Maes, er mynegwyd barn gymysg am natur a graddau'r diwygiadau gofynnol. Nododd rhai fod angen diwygio helaeth er mwyn i'r cymwysterau gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. Dywedodd eraill y byddai maint y newidiadau'n amrywio o'r naill bwnc i'r llall.
- Nododd ambell un mai dim ond yn ddiweddar y cafodd y cymwysterau TGAU mewn Addysg Gorfforol ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, eu diwygio. Roedd rhai yn anghytuno bod angen unrhyw adolygiad neu ddiwygiad o'r cymwysterau hyn gan eu bod yn teimlo bod y cymwysterau presennol yn y Maes yn ddigon da. Teimlai eraill fod angen newidiadau ehangach mewn arferion addysgu a dysgu er mwyn sicrhau y byddai dysgwyr nad ydynt yn dewis astudio cymwysterau yn y Maes hwn yn dal i elwa ar ddatblygu sgiliau a gwybodaeth gysylltiedig.
- Rhannwyd gwahaniaeth barn hefyd am nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cymwysterau presennol yn y Maes, ac am ddiddordeb y dysgwyr hynny. Dywedodd rhai eu bod yn boblogaidd gyda dysgwyr, tra bod eraill yn anghytuno. Amlygodd ambell un fod angen gwneud y cymwysterau wedi'u hadolygu a'u diwygio *"yn academaidd gadarn"* i gadw diddordeb a sicrhau bod cynifer â phosibl yn manteisio arnynt, ond teimlai eraill y dylai'r cymwysterau, er mwyn cyflawni hyn, gael ffocws mwy ymarferol.
- Roedd awgrymiadau penodol ar gyfer adolygu a diwygio TGAU Addysg Gorfforol yn cynnwys ehangu ei gwmpas y tu hwnt i chwaraeon, perfformiad a chystadleuaeth (gan gynnwys dileu'r gweithgarwch unigol gorfodol er mwyn osgoi effeithio'n negyddol ar ddysgwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig); ymgorffori ioga, aerobeg a dawns; a chadw ei ffocws ymarferol. Dylai asesu TGAU Addysg Gorfforol fod yn ymarferol a dylai ganiatáu i ddysgwyr ddangos eu cynnydd mewn gwahanol ffyrdd, yn ôl rhai ymatebwyr.
- O ran TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, roedd awgrymiadau ar gyfer adolygu a diwygio yn cynnwys sicrhau bod y cymhwyster diwygiedig yn cefnogi astudio a gyrfaoedd yn y dyfodol; a'i gwahanu'n gymwysterau ar wahân.
- Ar gyfer TGAU Bwyd a Maeth, amlygodd ambell un bwysigrwydd y pwnc; bod ei angen i gefnogi dewisiadau iach o ran ffordd o fyw; ac i gydbwyso anghenion gwahanol unigolion.

5. Y Dyniaethau

5.1. Cynnig 1

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i adolygu a diwygio TGAU mewn Busnes, Daearyddiaeth, Hanes ac Astudiaethau Crefyddol?

Ffigur 7: Lefel y cytundeb â phob pwnc o dan gynnig 1 ym Maes y Dyniaethau



Dewisodd ychydig dros 300 o bobl ymateb i'r cynnig hwn. Cytunai'r mwyafrif â'r cynnig i adolygu a diwygio'r pedair TGAU a gynhwyswyd yn y cynnig. Cafwyd y lefel isaf o gytundeb ar gyfer Busnes sef 58%. Dangosodd y pwnc hwn hefyd y lefel uchaf o ymatebion niwtral a 'ddim yn gwybod', gan awgrymu y gallai'r ymatebwyr fod yn llai cyfarwydd â'r pwnc hwn na'r tri arall.

Rhoddodd mwy na dau o bob tri (68%, 205 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

- Roedd cytundeb cryf â'r cynnig ymhlith ymatebwyr, gyda llawer yn mynegi y dylai'r cymwysterau TGAU presennol ym Maes y Dyniaethau aros ar wahân. Dywedwyd y byddai hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd a gwerth y pynciau

unigol; yn cynnal trylwyredd sy'n benodol i ddisgyblaeth; yn atal gwanhau'r pwnc; yn hyrwyddo dewis dysgwyr; ac yn meithrin sgiliau a gwybodaeth i gefnogi dysgu pellach a gyrfaoedd. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid ystyried dull cyfun neu integredig o ymdrin â TGAU yn y Maes. Nododd eraill y dylai unrhyw gymwysterau TGAU a adolygwyd ac a ddiwygiwyd bwysleisio cysylltiadau trawsgwricwlaidd.

- Mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryder ynghylch cynnwys *"trwm"* y cymwysterau TGAU presennol yn y Maes. Dywedwyd bod hyn yn effeithio ar addysgu, dysgu ac asesu; yn annog dysgwyr llai galluog i beidio â'u hastudio neu'n anfanteisio'r dysgwyr hyn; ac yn annog dysgwyr i beidio ag astudio Safon Uwch yn y pynciau.
- Roedd yr awgrymiadau a wnaed ar gyfer cynnwys cymwysterau TGAU yn y Maes yn y dyfodol yn cynnwys cynyddu amrywiaeth a pherthnasedd; ffocws ar ddatblygu sgiliau sy'n seiliedig ar bwnc a safbwyntiau byd-eang (TGAU Daearyddiaeth); cadw ffocws sy'n seiliedig ar wybodaeth yn hytrach na chanolbwyntio'n ormodol ar ddatblygu sgiliau (TGAU Astudiaethau Crefyddol); a chynnwys mwy o ddysgu hunangyfeiriedig, rhyngweithiol sy'n seiliedig ar ymholi.
- Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gryf fod angen adolygu a diwygio cymwysterau TGAU yn y Maes i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd ac i wella addysgu ac asesu. Fodd bynnag, teimlai rhai fod y cynnig yn ddiangen. Roedd y rhesymau a roddwyd am hyn yn cynnwys diwygiadau diweddar y cymwysterau presennol ac addasrwydd presennol i'r diben; yr amser a'r ymdrech sydd eu hangen i baratoi i addysgu cymwysterau TGAU newydd; ac effaith COVID-19.
- Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn fod cymwysterau TGAU presennol yn y Maes yn canolbwyntio gormod ar baratoi dysgwyr ar gyfer asesiadau. Dywedwyd bod dysgwyr yn ei chael hi'n anodd cwblhau'r arholiadau presennol (yn enwedig mewn TGAU Hanes). Roedd rhywfaint o deimlad y dylai asesiad ar gyfer yr holl gymwysterau yn y Maes fod yn debyg o ran fformat; cydnabod asesiadau athrawon i raddau helaethach; defnyddio dulliau digidol a chyfunol; a chrisialu dilyniant unigol.
- Roedd rhywfaint o deimlad y dylai'r holl gymwysterau yn y Maes gael eu strwythuro mewn ffordd debyg a bod yn gyson â'i gilydd i sicrhau cymaroldeb a herio dysgwyr yn briodol. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cynnig cwrs byr neu gymhwyster lefel 2 mewn astudiaethau crefyddol ochr yn ochr â'r TGAU lawn.
- Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai cynnwys a thrylwyredd cymwysterau yn y Maes fod yn debyg i'r rhai a gynigir yng ngweddill y DU er mwyn osgoi anfanteisio dysgwyr yng Nghymru a chefnogi dysgu pellach.

5.2. Cynnig 2

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu TGAU newydd mewn Astudiaethau Cymdeithasol, os yw'n ymarferol bosib?

Ffigur 8: Lefel y cytundeb â chynnig 2 ym Maes y Dyniaethau



Ymatebodd 315 o bobl i'r cynnig hwn. Roedd ychydig dros hanner (56%) yn cytuno â'r cynnig i greu TGAU newydd mewn Astudiaethau Cymdeithasol. Roedd gweithwyr addysg proffesiynol ychydig yn llai cefnogol: roedd 53% yn cytuno a thros chwarter (27%) yn anghytuno, gan gynnwys 17% yn anghytuno'n gryf. Rhoddodd dros hanner (57%, 180 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

- Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai TGAU mewn Astudiaethau Cymdeithasol yn bwysig ac yn berthnasol i ddysgwyr. Dywedasant y byddai'r cymhwyster yn helpu i ehangu gwybodaeth dysgwyr am faterion rhyngwladol ac yn eu helpu i ddatblygu empathi a dealltwriaeth; yn eu cefnogi i symud ymlaen i astudiaeth berthynol bellach; ac yn eu helpu i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy defnyddiol.
- Roedd rhai yn rhagweld y byddai TGAU mewn Astudiaethau Cymdeithasol yn boblogaidd ymhlith dysgwyr, yn enwedig y rhai sydd am arbenigo mewn gwahanol bynciau ym Maes y Dyniaethau neu astudio'r pynciau hynny. Fodd bynnag, teimlai rhai y byddai'r TGAU hon yn llai poblogaidd na phynciau mwy traddodiadol y dyniaethau. Yn ôl eraill, byddai'r TGAU yn gymhwyster *"wedi'i wanhau"*, na allai gwmpasu'r pynciau angenrheidiol yn ddigon manwl ac na fyddai'n cael ei werthfawrogi gan sefydliadau addysg uwch na chyflogwyr.
- Roedd llawer o'r ymatebwyr yn pryderu y byddai'r cymhwyster astudiaethau cymdeithasol arfaethedig yn *"gwthio i'r ochr"* gymwysterau TGAU presennol yn y Maes. Nododd rhai bod astudiaethau cymdeithasol eisoes yn cael eu cynnwys mewn cymwysterau TGAU presennol. Roedd eraill yn teimlo y gallai'r TGAU arfaethedig ddisodli'r Dystysgrif Her Sgiliau. Awgrymodd rhai y dylid mynd i'r afael â bylchau mewn cymwysterau eraill yn y Maes yn hytrach na chyflwyno

cymhwyster newydd, neu y gellid ymgorffori astudiaethau cymdeithasol mewn cymwysterau sy'n bodoli eisoes. Dywedwyd y dylai'r TGAU arfaethedig mewn Astudiaethau Cymdeithasol osgoi dyblygu â chymwysterau sy'n bodoli eisoes, ac y dylai hefyd amlygu'r cysylltiadau rhwng pynciau'r dyniaethau.

- Roedd rhywfaint o deimlad bod y cymhwyster arfaethedig yn cyd-fynd yn gryf â'r cwricwlwm newydd. Roedd cefnogaeth hefyd i'r cymhwyster fod yn un gwneud-i-Gymru, wedi'i gynllunio gan arbenigwyr pwnc yng Nghymru, bod ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a chynnwys cyd-destun a phwyslais sy'n berthynol i Gymru.
- Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai ysgolion ei chael hi'n anodd recriwtio staff arbenigol i gyflenwi'r cymhwyster arfaethedig. Mynegodd eraill y byddai angen uwchsgilio, adnoddau a chanllawiau ar staff i'w paratoi i gyflenwi.
- Gwnaed sawl awgrym ynglŷn â chynnwys ac asesiad arfaethedig y TGAU. Gallai cynnwys ymgysylltu â'r gymuned helpu i feithrin cydlyniad, meddai rhai. Dywedwyd hefyd y gallai strwythur modiwlaidd alluogi dysgwyr i ddewis pynciau yn unol â'u diddordebau eu hunain. O ran asesu, dywedwyd bod sicrhau trylwyredd yn bwysig, ynghyd ag ymgorffori'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (DCF) yn y meini prawf asesu, a darparu rhagor o wybodaeth am gydbwysedd asesiadau di-arholiad (ADA) ac arholiadau.

5.3. Cynnig 3

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu TGAU integredig newydd yn y Dyniaethau, os yw'n ymarferol bosib?

Ffigur 9: Lefel y cytundeb â chynnig 3 ym Maes y Dyniaethau



Ymatebodd cyfanswm o 311 o bobl i'r cynnig hwn, ac roedd dros hanner (52%) yn anghytuno â'r syniad o ddatblygu TGAU integredig newydd yn y Dyniaethau. Roedd hyn yn cynnwys 36% a oedd yn anghytuno'n gryf. Ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol, roedd anghytundeb hyd yn oed yn fwy amlwg gyda 61% yn anghytuno, gan gynnwys 41% a oedd yn anghytuno'n gryf â'r cynnig.

Rhoddodd bron i ddau o bob tri (63%, 197 o bobl) o'r rhai a ymatebodd sylw ysgrifenedig hefyd. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

- Yr achos pryder mwyaf i'r ymatebwyr oedd y gallai TGAU newydd yn y Dyniaethau wneud y meysydd pwnc dan sylw yn rhy eang; gwanhau gwybodaeth a sgiliau pwnc; cyfyngu ar gyfleoedd i arbenigo; a cheisio ymgorffori gormod o gynnwys mewn un cymhwyster. Roedd rhai hefyd yn ofni na fyddai hyd yn oed TGAU dyfarniad dwbl yn cwmpasu'r pynciau o fewn y Maes yn ddigonol, ac y byddai ysgolion yn ei chael yn anodd penderfynu ar gynnwys y cymhwyster arfaethedig a'i gynllunio, o ystyried y prinder lle sydd ar gael iddo yn y cwricwlwm.
- Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr na fyddai'r TGAU arfaethedig yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar ddysgwyr i astudio pynciau yn y Maes ymhellach. Teimlai rhai y byddai dysgwyr sy'n astudio TGAU yn y Dyniaethau o dan anfantais o'u cymharu â'r rhai sy'n astudio cymwysterau TGAU ar wahân yn y Maes wrth symud ymlaen i addysg bellach ac uwch.
- Roedd ambell ymatebydd a oedd yn cefnogi'r TGAU Dyniaethau arfaethedig yn awgrymu y dylai Safon Uwch y Dyniaethau integredig hefyd fod ar gael i alluogi dilyniant o'r TGAU. Dywedodd ymatebwyr eraill a gefnogodd y cynnig y

dylai'r cymhwyster arfaethedig fod ar gael a chael ei dreialu i ddechrau gan ysgolion sy'n darparu dyniaethau integredig yng *"Nghyfnod Allweddol 3"*.[7]

- Teimlai llawer o'r ymatebwyr y byddai'r TGAU arfaethedig yn tanseilio pwysigrwydd y pynciau presennol yn y Maes, gan leihau'r nifer sy'n eu hastudio, gan arwain at golli arbenigedd ymhlith dysgwyr, ac ymyleiddio pynciau eraill. Roedd rhywfaint o deimlad bod pynciau yn y Maes yn rhy wahanol i'w cyfuno'n ystyrlon mewn TGAU integredig. Roedd rhai yn ofni y byddai'r cymhwyster newydd yn dyblygu ac yn cystadlu â phynciau sy'n bodoli eisoes.
- Mynegwyd cryn bryder ynghylch y cymhwyster arfaethedig yn cael ei addysgu gan athrawon nad ydynt yn arbenigwyr, a allai ddibrisio'r pynciau a lleihau mwynhad dysgwyr ohonynt. Y pryderon staffio eraill oedd y gallai'r cymhwyster gael ei ddehongli'n anghyson gan athrawon; y gallai ysgolion ei chael hi'n anodd recriwtio staff a oedd am ei gyflenwi; ac y byddai'r amser ychwanegol sydd ei angen i'w addysgu yn her i ysgolion llai o faint.
- Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y TGAU integredig flaenorol yn y Dyniaethau a oedd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru. Dywedasant ei bod yn brin o ddyfnder a thrylwyredd, ac nad oedd llawer yn manteisio arnynt, gan ofni y gallai hyn fod yn berthnasol i'r TGAU arfaethedig hefyd. Tynnodd eraill sylw at yr angen i atal y TGAU arfaethedig rhag cael ei hystyried yn opsiwn *"eilradd"* neu haws. I'r gwrthwyneb, teimlai rhai y gallai'r cymhwyster fod yn addas i ddysgwyr llai galluog neu'r rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
- Amlygodd ymatebwyr a gefnogai'r cynnig ei fod yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd a'r dull cyfannol o ymdrin â'r dyniaethau yng *"Nghyfnod Allweddol 3"*; y potensial ar gyfer dull integredig o ymdrin â Maes y Dyniaethau; ac apêl bosibl y cymhwyster i ddysgwyr sy'n dymuno astudio sawl agwedd ar y dyniaethau.
- O ran dylunio'r cymhwyster, nododd rhai ymatebwyr y dylid cyflwyno'r cymhwyster arfaethedig fesul dipyn ochr yn ochr â diwygiadau eraill. Amlygodd eraill y dylai'r cymhwyster fod wedi'i gynllunio'n dda; ei gynllunio'n ofalus; cynnwys modiwlau dewisol neu fodiwlau llai o faint; cynnwys cyfraniad arbenigwyr pwnc; ac y dylai ysgolion gael digon o amser i gefnogi'r broses o'i gyflwyno fesul dipyn.

[7] Drwy gydol yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at "Gyfnodau Allweddol" 2 i 5 yn eu hadborth. Nid yw Cyfnodau Allweddol yn bodoli yn y Cwricwlwm i Gymru newydd, er eu bod yn nodwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol presennol. Mae Cyfnod Allweddol 2 yn cyfateb i Flynyddoedd 3-6; Cyfnod Allweddol 3 i Flynyddoedd 7-9, Cyfnod Allweddol 4 i Flynyddoedd 10-11, a Chyfnod Allweddol 5 i Flynyddoedd 12-13.

6. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

6.1. Cynnig 1

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu TGAU iaith a llenyddiaeth gyfun newydd yn y Saesneg a Chymraeg i ddisodli'r cymwysterau TGAU presennol sy'n cael eu cynnig ar wahân? Byddai'r cymwysterau TGAU cyfun newydd hyn oddeutu maint 1½ TGAU.

Ffigur 10: Lefel y cytundeb â chynnig 1 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Atebodd cyfanswm o 435 o bobl y cwestiwn hwn, a'r grŵp unigol mwyaf oedd gweithwyr addysg proffesiynol (251). Roedd mwy na hanner (56%) yr ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig, a rhyw dau o bob pump (39%) yn anghytuno'n gryf. Roedd llai na thraean (30%) yn cytuno. Pan ystyriwn y data gan wahanol grwpiau rhanddeiliaid, roedd dysgwyr yn llawer mwy cefnogol o'r cynnig, gyda hanner yn cytuno (50%) o'u cymharu ag ychydig o dan chwarter (24%) o weithwyr addysg proffesiynol. O'r 435 o bobl a ymatebodd i'r cynnig, rhoddodd 67% (292 o bobl) sylw ysgrifenedig hefyd. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

- Roedd y pryder mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr yn ymwneud â maint y cymwysterau arfaethedig. Oherwydd eu maint, roedd ymatebwyr yn rhagweld y byddai'r cymwysterau arfaethedig yn dibrisio Cymraeg a Saesneg fel pynciau; na fyddent yn hafal i gymwysterau a gynigir yng ngweddill y DU; na fyddent yn cael eu gwerthfawrogi, eu deall na'u cydnabod yn eang; ac y byddent yn effeithio'n negyddol ar lefelau llythrennedd dysgwyr ac ar adnoddau ysgol. Teimlai'r rhai a gefnogai'r cynnig y gallai leihau dyblygu rhwng cymwysterau iaith a llenyddiaeth, a rhyddhau dysgwyr i ganolbwyntio ar bynciau eraill.
- Roedd llawer o'r ymatebwyr yn pryderu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar ddysgwyr llai galluog drwy gynyddu eu llwyth gwaith a chael gwared ar haenau. Roedd rhai'n pryderu y byddai'r cymwysterau arfaethedig yn rhoi dysgwyr mwy galluog dan anfantais drwy beidio â'u paratoi'n ddigonol ar

gyfer astudio pellach. Roedd eraill yn anghytuno, gan ddweud y gallai'r cymwysterau arfaethedig helpu i wella sgiliau llythrennedd ac ehangu mynediad at lenyddiaeth.

- Gwnaeth llawer o'r rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig hynny am eu bod yn teimlo na ddylid cyfuno iaith a llenyddiaeth. Awgrymodd rhai y byddai cyfuno iaith a llenyddiaeth yn lleihau amrywiaeth y llenyddiaeth a astudir. I'r gwrthwyneb, teimlai rhai o'r rheini a gytunai â'r cynnig fod cyfuno iaith a llenyddiaeth yn rhesymegol, ac y byddai'n annog dysgwyr i ddeall sut yr oedd y disgyblaethau'n gysylltiedig a datblygu sgiliau trosglwyddadwy.

- Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu bod y cynnig yn blaenoriaethu polisïau Llywodraeth Cymru (LlC) mewn perthynas â hyrwyddo'r Gymraeg ar draul lefelau llythrennedd Saesneg i ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Dywedwyd hefyd fod y ffaith bod nifer llai yn manteisio ar gymwysterau llenyddiaeth yn gysylltiedig â phetruster Llywodraeth Cymru ynghylch a ydynt yn cyfrannu at fesurau perfformiad ysgolion.

- Dywedodd aelodau Cymdeithas yr Iaith a gyflwynodd ymateb mewn perthynas â'r cynigion yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu fod angen sicrhau bod dysgu Cymraeg ar hyd un continwwm yn arwain at un asesiad cyfannol a chyfle cyfartal i bob dysgwr gyrraedd y safonau uchaf yn y Gymraeg. Dywedasant "'*... yn hytrach, dylid creu cymhwyster Iaith, Llenyddiaeth a Chymru Gyfoes - sy'n cyfateb i 2 TGAU yn lle'r cymhwyster presennol*"[8]. Mae'n debygol bod yr awgrym hwn yn ymwneud â chymwysterau TGAU presennol Cymraeg iaith a Chymraeg llenyddiaeth, ond ni nodwyd hyn yn benodol.

[8] "*... yn lle dylid creu cymhwyster 'Iaith, Llenyddiaeth a'r Gymru gyfoes' – cyfwerth â 2 TGAU i ddisodli'r cymhwyster presennol*"

6.2. Cynnig 2

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i roi'r gorau i TGAU Cymraeg Ail Iaith a chreu TGAU newydd, mwy o faint wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg? Byddai'r cymhwyster newydd oddeutu maint 1½ TGAU.

Ffigur 11: Lefel y cytundeb â chynnig 2 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Atebodd cyfanswm o 416 o bobl y cwestiwn hwn gyda 30% yn cytuno a 44% yn anghytuno. Yn gyffredinol, roedd tri o bob deg (31%) o ymatebwyr yn anghytuno'n gryf â'r cynnig. Ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol, roedd 47% yn anghytuno; ymhlith rhieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd, cododd hyn i 59%; ac ymhlith dysgwyr syrthiodd i 31%. Rhoddodd 54% (226 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

- Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gadarnhaol ynghylch addysgu TGAU Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, roedd gwahaniaeth barn am ei phoblogrwydd a'i llwyddiant. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod teimlad negyddol gan ddysgwyr, rhieni a gofalwyr ynghylch y ffaith bod dysgu Cymraeg yn orfodol hyd at 16 oed. Awgrymodd rhai y gallai'r cynnig gynyddu'r negyddoldeb hwn. Roedd llawer hefyd nad oeddent yn gwerthfawrogi cymhwyster presennol y TGAU Cymraeg Ail Iaith. Roedd teimlad cryf y byddai'r ffocws cynyddol arfaethedig ar ddysgu Cymraeg yn creu "system ddwy haen" lle mae dysgwyr Cymraeg yn llusgo y tu ôl i'w cyfoedion yn Lloegr o ran sgiliau llythrennedd.
- Yn yr un modd â'r cynnig blaenorol, mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch cyflwyno cymhwyster o faint un TGAU a hanner, a'r rhan fwyaf yn cefnogi cadw'r cymhwyster yn un TGAU. Roeddent yn teimlo na fyddai cymhwyster o'r maint a gynigiwyd yn cael ei gydnabod gan sefydliadau addysg uwch na chyflogwyr. Teimlai rhai y byddai ysgolion yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ddigon o athrawon Cymraeg i ddarparu cymhwyster mwy o faint.

- Teimlai rhai ymatebwyr y byddai astudio TGAU fwy o faint yn anfanteisio'r rhai a oedd eisoes yn cael trafferth gyda'r pwnc. Er mwyn lliniaru hyn, awgrymwyd y dylai'r cymhwyster fod yn ddewisol ac na ddylai gynnwys arholiad, neu y dylai ysgolion gynnig *"Cymraeg pellach"* ar ben cymhwyster *"llai manwl"* i'r rhai sydd â sgiliau Cymraeg mwy datblygedig.
- Roedd angen mynd i'r afael ag addysgu Cymraeg anghyson yn yr ysgol gynradd er mwyn paratoi dysgwyr ar gyfer y ffocws cynyddol ar ddysgu Cymraeg, yn ôl rhai ymatebwyr. Awgrymwyd y gellid cyflawni hyn drwy gyflwyno continwwm dysgu gan ddefnyddio asesiad yn seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR[9]).
- Nid oedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y cynnig hwn yn cyd-fynd yn dda â nodau'r cwricwlwm newydd oherwydd byddai cymryd amser i ffwrdd o ddysgu Saesneg ac ieithoedd eraill yn gwneud dysgwyr yn llai ymwybodol yn fyd-eang. Teimlai eraill y byddai dileu dysgu gorfodol y Gymraeg yn annog dysgwyr i astudio ieithoedd eraill, gan gynyddu ymwybyddiaeth fyd-eang. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo'n gryf bod y newidiadau a gynigiwyd yn adlewyrchu mwy o agenda gwleidyddol nag anghenion addysgol.
- Dywedodd aelodau o Gymdeithas yr Iaith a gyflwynodd ymateb eu bod yn anghytuno'n gryf â chynnig 2. Dywedasant y dylid creu un cymhwyster TGAU Cymraeg cyfannol yn hytrach na'r cymwysterau a amlinellwyd yng nghynigion 1 a 2. Dywedwyd y byddai'r TGAU Cymraeg gyfannol yn cynnwys dau bapur arholiad, gan arwain at ddyfarniad deuol / dwy TGAU.

[9] Mae'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin (CEFR) yn offeryn a ddefnyddir i ddisgrifio lefel rhuglder dysgwyr mewn ieithoedd.

6.3. Cynnig 3

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cyfres o gymwysterau bach sgiliau iaith Cymraeg gellir eu cymryd yn ychwanegol at TGAU i gefnogi dilyniant ar hyd y continwwm Cymraeg?

Ffigur 12: Lefel y cytundeb â chynnig 3 o fewn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Ymatebodd cyfanswm o 402 o bobl i'r cynnig hwn. Roedd bron i hanner (49%) yn cytuno, tra bod ychydig o dan chwarter yn anghytuno. Wrth edrych ar is-grwpiau, roedd cyfran gymharol fach o ddysgwyr (7%) yn anghytuno'n gryf o gymharu â 22% llawer uwch o rieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd. Roedd gweithwyr addysg proffesiynol yn syrthio rhwng y ddau, gyda 14% yn anghytuno'n gryf. Rhoddodd 48% (194 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

- Teimlai'r rhai a gytunai â'r cynnig hwn y byddai'r fformat a awgrymwyd yn ehangu'r opsiynau a'r dewis i ddysgwyr, a hynny'n cael ei groesawu. Roeddent yn teimlo y byddai cynnig cymwysterau Cymraeg bychain yn galluogi dysgwyr mwy galluog a'r rhai â diddordeb brwd mewn dysgu Cymraeg i ehangu eu gwybodaeth; yn gwella hyder dysgwyr; yn darparu pont i astudiaeth bellach; ac yn cynnig dewisiadau amgen[10] i ddysgwyr y gallai TGAU lawn fod yn hynod anodd iddynt. Ychwanegodd rhai ymatebwyr y dylai'r cymwysterau ymgorffori sgiliau bywyd ymarferol, megis defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo y gallai'r cymwysterau bach fod yn arbennig o ddefnyddiol i ddysgwyr llai galluog neu'r rhai â lefelau isel iawn o'r Gymraeg. Fodd bynnag, teimlai rhai fod y cymwysterau bach arfaethedig yn ddiangen ac y gallent fod yn llethol i ddysgwyr. Dywedasant y dylid cynnig y cymwysterau bach yn hytrach na'r cymhwyster TGAU Cymraeg a hanner arfaethedig, yn hytrach nag yn ogystal ag ef.

[10] Mae'r adborth hwn yn awgrymu y gallai rhai ymatebwyr fod wedi camddeall mai'r cynnig oedd creu cymwysterau bach Cymraeg a oedd i'w cynnig ochr yn ochr â TGAU Cymraeg, nid yn lle hynny.

- Roedd pryder ymhlith rhai ymatebwyr fod y cynigion hyn yn rhoi mwy o ffocws ar addysgu Cymraeg na Saesneg, gyda lleiafrif bach yn disgrifio'r cynlluniau fel rhai *"gwahaniaethol"* neu'n gysylltiedig ag agenda gwleidyddol. Dywedwyd y gallai hyn arwain at anghydbwysedd o ran astudio pynciau eraill, a lleihau lefelau llythrennedd Saesneg. Roedd rhai ymatebwyr yn ansicr at bwy fyddai'r cymwysterau hyn yn cael eu hanelu ac i ba raddau y byddent yn ategu'r cymwysterau Cymraeg arfaethedig eraill.
- Nododd ymatebwyr nifer o faterion ymarferol wrth gyflenwi'r cymwysterau bach. Roedd y rhain yn cynnwys deall gwerth y cymwysterau; sut y byddai'r cymwysterau'n cael eu staffio a'u hamserlennu; a'u potensial ar gyfer cynyddu llwyth gwaith dysgwyr.
- Yn debyg i gynigion 1 a 2 yn y Maes hwn, dywedodd aelodau Cymdeithas yr Iaith a gyflwynodd ymateb eu bod yn anghytuno'n gryf â chynnig 3. Yn hytrach, roeddent yn argymell datblygu modiwlau ychwanegol a chyfres o gymwysterau fel pont rhwng TGAU a safon UG.

6.4. Cynnig 4

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i adolygu a diwygio TGAU 'gwneud-i-Gymru' yn Ffrangeg, Almaeneg, a Sbaeneg?

Ffigur 13: Lefel y cytundeb â chynnig 4 o fewn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Gwnaeth cyfanswm o 401 o bobl sylwadau ar y cynnig hwn, gyda thros hanner (56%) yn cytuno a dim ond ychydig dros ddeg (11%) yn anghytuno. O edrych ar y math o ymatebydd, roedd dysgwyr yn fwyaf tebygol o gytuno'n gryf, tra bod yr anghytundeb cryfaf yn dod gan rieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd. Roedd deuddeg y cant o'r grŵp hwn yn anghytuno, a 10% ohonynt yn gryf. Dangosodd dysgwyr a gweithwyr addysg proffesiynol lefelau tebyg o anghytundeb cyffredinol (14% a 10% yn y drefn honno) ond roeddent yn fwy tebygol o dueddu i anghytuno nag anghytuno'n gryf.

Rhoddodd 36% (143 o bobl) o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn sylw ysgrifenedig hefyd. Amlinellir y prif themâu a nodwyd yn sylwadau'r ymatebwyr isod.

- Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i raddau helaeth. Croesawyd newid i fynd i'r afael â'r gostyngiad diweddar yn y nifer sy'n ymgymryd â chymwysterau TGAU iaith ryngwladol. Dywedwyd nad oedd y cymwysterau'n cael eu hystyried yn addas i'r diben, ar hyn o bryd, gan fod iddynt ormod o gynnwys a baich gwaith trwm.
- Dywedwyd y dylai'r cymwysterau diwygiedig arfaethedig ganolbwyntio ar gyfathrebu; cynyddu hyder dysgwyr wrth siarad yr ieithoedd; apelio at gyflogwyr; osgoi gormod o ffocws ar gyflawni rhuglder; cynnwys elfen o drochi; addysgu yn yr iaith darged; a meithrin sgiliau trawsieithog. Argymhellodd rhai ymatebwyr gynnig TGAU Eidaleg fel opsiwn arall. Awgrymwyd hefyd y dylid defnyddio mwy o dechnoleg ddigidol i foderneiddio ac ehangu mynediad i'r cymwysterau.
- Gwelwyd bod y cymwysterau TGAU iaith ryngwladol presennol yn addas i ddysgwyr gallu uwch yn unig, ac i'r rhai sydd â sylfaen ieithyddol gadarn cyn eu cychwyn. Dywedwyd bod y cymwysterau presennol yn drwm o ran arholiadau

ac yn cael eu marcio'n fwy llym na phynciau eraill. Felly, dylai'r cymwysterau diwygiedig fod yn fwy hygyrch i bob dysgwr, dibynnu llai ar arholiadau, a bod yn fwy pleserus a chyfoes, awgrymodd yr ymatebwyr.

- Roedd peth pryder y byddai llai o gymwysterau TGAU iaith ryngwladol ar gael i ddysgwyr yng Nghymru o'u cymharu â dysgwyr yn Lloegr, gan effeithio ar ragolygon addysg bellach ac uwch a chyflogaeth.
- Er hynny, roedd eraill yn ystyried bod yr elfen 'gwneud i Gymru' yn gadarnhaol, gan y bu rhywfaint o feirniadaeth o'r newidiadau a gynigiwyd i gymwysterau TGAU iaith ryngwladol yn Lloegr, sy'n golygu y gallai Cymru ddatblygu cynnig gwell. Teimlwyd hefyd y byddai hyn yn golygu gwell aliniad ag elfen 'Cynefin'[11] y cwricwlwm newydd.

[11] Diffinnir 'Cynefin' yn y Cwricwlwm i Gymru newydd fel yr ardal leol: y lle hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sy'n llunio'r cymunedau sy'n byw yno.

6.5. Cynnig 5

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cyfres o gymwysterau bach, 'gwneud-i-Gymru' mewn ystod o ieithoedd rhyngwladol i gefnogi ymgysylltiad a dilyniant mewn dysgu iaith?

Ffigur 14: Lefel y cytundeb â chynnig 5 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Rhoddodd cyfanswm o 402 o bobl farn am y cynnig hwn. Roedd bron i dri o bob pump (58%) yn ei gefnogi, gyda'r gweddill yn niwtral neu'n ansicr i raddau helaeth. Dim ond 12% o'r ymatebwyr oedd yn anghytuno, hanner ohonynt yn gryf. O'i ystyried fesul is-grŵp, cytunodd 57% o weithwyr addysg proffesiynol tra bod 14% yn anghytuno, gan gynnwys 8% a oedd yn anghytuno'n gryf. Ymhlith dysgwyr, roedd mwy o gefnogaeth gyda 71% yn cytuno a dim ond 5% yn anghytuno.

Rhoddodd tua dau o bob pump (39%, 155 o bobl) o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig sylw ysgrifenedig hefyd. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

- Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai'r cymwysterau bach baratoi dysgwyr ar gyfer astudio ieithoedd ymhellach. Roedd rhai'n teimlo y gallent fod yn *"garreg sarn"* tuag at gymwysterau TGAU iaith ryngwladol yn hytrach na chael eu cynnig ar lefel TGAU. Awgrymodd eraill y gellid cynnig y cymwysterau o *"Gyfnod Allweddol 3"* a thrwy gydol yr ysgol uwchradd. Dywedwyd y byddai cyfeirio'r cymwysterau bach a'r cymwysterau TGAU iaith ryngwladol yn erbyn y CEFR yn dangos y dilyniant rhwng y ddwy gyfres o gymwysterau.
- Teimlai rhywfaint y gallai'r cymwysterau bach hefyd gefnogi dilyniant mewn meysydd eraill i ddysgwyr nad ydynt yn dymuno astudio ieithoedd rhyngwladol ar lefel TGAU neu Safon Uwch. Dywedwyd y gallai'r cymwysterau hefyd ddatblygu sgiliau a hyder iaith dysgwyr; ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cydraddoldeb a dealltwriaeth; sgiliau ehangach megis rhesymu a chydnabod patrymau. Roedd teimlad cryf y dylai'r cymwysterau bach fod ar gael mewn ystod eang o ieithoedd rhyngwladol i adlewyrchu amrywiaeth cymunedau ledled Cymru.

- Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynnig yn cynyddu'r nifer sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol ar lefel TGAU a'r tu hwnt, ac yn annog dysgwyr i ymfalchïo yn eu cymunedau cartref. Teimlai rhai ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig y dylid, yn hytrach na chyflwyno cymwysterau bach, cynnig cymwysterau TGAU mewn ystod ehangach o ieithoedd i adlewyrchu gwerth y rhai a siaredir gan bob dysgwr yng Nghymru.
- Mynegwyd pryder ynghylch a fyddai sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a chyflogwyr yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cymwysterau arfaethedig. Roedd rhywfaint o deimlad bod y cymwysterau bach yn ddiangen, ac y byddai eu cynnig yn rhoi dysgwyr yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu â dysgwyr yng ngweddill y DU.
- Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu sut y byddai'r cymwysterau bach yn cael eu staffio, gan awgrymu y gallai anawsterau wrth recriwtio staff arbenigol achosi bylchau sgiliau ymhlith dysgwyr. Roedd eraill yn ofni y byddai'r cymwysterau'n cynyddu llwyth gwaith athrawon a dysgwyr ac yn anodd eu cynnwys o fewn amserlenni ysgolion.
- Roedd ymatebwyr yn teimlo'n gryf na ddylai'r cymwysterau bach ddisodli cymwysterau TGAU iaith ryngwladol a bod yn rhaid iddynt yn hytrach fod ar gael ochr yn ochr â hwy, gan adlewyrchu'r cynnig. Teimlai rhai y gallai ysgolion gael eu temtio i gynnig y cymwysterau bach yn lle TGAU, a nododd eraill fod cymwysterau addas eisoes yn bodoli. At hynny, teimlai rhai fod angen mwy o eglurder ynghylch diben a natur y cymwysterau a'u perthynas â'r cymwysterau TGAU arfaethedig.
- Cynigiwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer cynnwys a chynllun y cymwysterau bach arfaethedig gan yr ymatebwyr. Roedd y rhain yn cynnwys cael eu dylunio mewn ffordd arloesol, gan gefnu ar dechnegau fel cyfieithu; bod yn fodiwlaidd, gan ganiatáu i ddysgwyr gronni credydau i'w cyfrannu at gymhwyster mwy o faint; cael eu hastudio yn rhan o *"broffil iaith"* fel y Pasbort Iaith Ewropeaidd[12]; datblygu cysylltiadau ag ysgolion rhyngwladol i gyfoethogi dysgu iaith; a'u darparu drwy ddysgu cyfun.
- O ran asesu, nododd un ymatebydd y dylid osgoi dysgu ar y cof, ac awgrymodd un arall y dylai'r cymwysterau fod yn gysylltiedig ag asesiadau iaith ryngwladol penodol.
- Roedd rhywfaint o deimlad y byddai'r cymwysterau'n gwneud ieithoedd rhyngwladol ar gael i ddysgwyr llai galluog a'r rhai sy'n cael trafferth gydag ieithoedd. Awgrymodd eraill y dylai'r cymwysterau bach fod yn ddewisol a chael eu cynnig i ddysgwyr mwy galluog, y rhai sydd â diddordeb mewn ieithoedd, a'r rhai sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY).

[12] Dogfen yw'r Pasbort Iaith Ewropeaidd neu'r Portffolio Iaith Ewropeaidd lle gall dysgwyr iaith gofnodi a myfyrio ar eu dysgu iaith a'u profiadau diwylliannol.

6.6. Cynnig 6

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i sicrhau y gall dysgwyr ac ysgolion barhau i gael mynediad at ystod o gymwysterau Iaith Arwyddion Prydain (BSL), gan gynnwys unrhyw TGAU newydd a ddatblygwyd ar gyfer dysgwyr yn Lloegr?

Ffigur 15: Lefel y cytundeb â chynnig 6 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Ymatebodd 391 o bobl i'r cynnig hwn. Dim ond 2% a ddywedodd eu bod yn tueddu i anghytuno ag ef. Rhoddodd 36% (143 o bobl) o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn sylw ysgrifenedig hefyd. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod.

- Y thema gryfaf o bell ffordd a ddeilliodd o adborth yr ymatebwyr oedd y byddai parhau i gynnig ystod o gymwysterau BSL i ddysgwyr ac ysgolion yn helpu i hyrwyddo cynnwys dysgwyr B/byddar[13], gan helpu i hybu ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n eu hwynebu, a chreu cymdeithas fwy cynhwysol.
- Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr fod yn rhaid i gymwysterau BSL fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i gynnwys pob dysgwr ac i adlewyrchu ethos y cwricwlwm newydd. Mynegwyd barn gymysg ynghylch a ddylai cymwysterau BSL fod yn ddewisol neu'n orfodol.
- Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu na fyddai digon o staff â'r proffil sgiliau cywir i weithredu'r cynnig hwn. Nodwyd hefyd fod angen hyfforddiant staff a bod galw am athrawon BSL sydd â sgiliau Cymraeg.
- Awgrymodd rhai y dylid cynnig cymwysterau BSL fel modiwl o'r Gymraeg a/neu'r Saesneg yng *"Nghyfnod Allweddol 3"* yn hytrach na *"Chyfnod Allweddol*

[13] Mae "B/byddar" neu "D/deaf" yn disgrifio'r rheini sy'n Fyddar (defnyddwyr iaith arwyddion) a byddar (sy'n drwm eu clyw ond sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf ac sy'n darllen gwefusau a/neu'n defnyddio cymhorthion clyw efallai).

4" oherwydd byddai'n anodd darparu ar eu cyfer o fewn amserlen "*Cyfnod Allweddol 4*".

- Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at y ffaith y byddai'r cymwysterau'n ddiddorol, yn ddeniadol ac yn ddefnyddiol i ddysgwyr a staff. I'r gwrthwyneb, roedd rhai'n rhagweld y byddai'r nifer sy'n astudio cymwysterau BSL yn isel. Teimlai rhai fod BSL yn werthfawr i ddysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n dymuno gweithio yn y sector gofal cymdeithasol. Pwysleisiodd rhai y byddai BSL yn rhoi hwb i sgiliau cyfathrebu dysgwyr ac yn helpu i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth gysylltiedig.

7. Mathemateg a Rhifedd

7.1. Cynnig 1

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster Mathemateg a Rhifedd TGAU cyfun newydd i ddisodli'r ddau TGAU presennol mewn Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd? Byddai'r TGAU newydd oddeutu 1½ TGAU.

Ffigur 16: Lefel y cytundeb â chynnig 1 o fewn y Maes Mathemateg a Rhifedd



Rhoddodd cyfanswm o 250 o ymatebwyr eu barn am y cynnig hwn. Roedd mwy na hanner (57%) y rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn o'i blaid, ac ychydig dros chwarter (27%) yn ei erbyn. Ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol, roedd lefel y gefnogaeth yn parhau'r un fath (57%) er bod cyfran ychydig yn uwch yn erbyn y cynnig (32%). Roedd y grŵp hwn yn llai tebygol o fod yn niwtral neu ateb "ddim yn gwybod" na'r sampl cyffredinol.

O'r 250 o bobl a ymatebodd, dewisodd ychydig dros hanner (54% neu 134 o bobl) wneud sylwadau pellach. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod.

- Roedd cryn gefnogaeth i'r syniad o gyfuno mathemateg a rhifedd. Gwelwyd bod gwneud hynny'n gwneud synnwyr oherwydd sgiliau a chynnwys cysylltiedig y ddwy ddisgyblaeth.
- Y pryder mwyaf a godwyd gan ymatebwyr oedd maint y cymhwyster. Teimlai rhai y byddai sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr yn cael eu drysu gan hyn, gan anfanteisio dysgwyr o Gymru o'u cymharu â dysgwyr o weddill y DU. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai cymhwyster llai o faint yn golygu llai o amser addysgu, ac y gallai'r cynnig leihau pwysigrwydd mathemateg.
- Un agwedd allweddol arall ar y sylwadau oedd addasrwydd y cymhwyster i bob dysgwr. Roedd rhai yn cwestiynu a fyddai'r cymhwyster yn paratoi dysgwyr gallu uwch ar gyfer astudio pellach; roedd rhai'n teimlo y gallai'r cymhwyster

wneud mathemateg yn llai hygyrch i ddysgwyr llai galluog; ac roedd eraill yn teimlo na fyddai'r cymhwyster yn gweddu i ddysgwyr gallu uwch nac is.

- Codwyd mwy nag ychydig o bryderon ynghylch ailsefyll, yn enwedig gan sefydliadau addysg bellach, a rhai ohonynt yn nodi y byddai'n anodd cael lle yn eu hamserlenni i baratoi dysgwyr i ailsefyll y cymhwyster arfaethedig hwn.
- Ymhlith y pryderon eraill a godwyd roedd rhwystredigaeth gyda'r syniad o newid y cymwysterau mor fuan ar ôl mabwysiadu'r system bresennol.

7.2. Cynnig 2

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster bach newydd y gellir ei gymryd yn ychwanegol at y TGAU i asesu hyfedredd rhifiadol dysgwr, gan ddefnyddio dull asesu ar y sgrîn?

Ffigur 17: Lefel y cytundeb â chynnig 2 o fewn y Maes Mathemateg a Rhifedd



Ymatebodd cyfanswm o 238 o bobl i'r cynnig hwn. Roedd dau o bob tri (67%) yn cytuno â'r cynnig hwn o'u gymharu â dim ond 18% a oedd yn anghytuno. O edrych ar is-grwpiau, roedd y gefnogaeth yn uwch byth ymhlith rhieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd, ond dysgwyr oedd y lleiaf tebygol o gytuno.

Rhoddodd ychydig dros hanner (51% neu 121 o bobl) o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn sylw ysgrifenedig hefyd i esbonio eu hateb. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod.

- Y thema fwyaf cyffredin a godwyd oedd y byddai'r cymhwyster bach yn caniatáu i bob dysgwr ennill sgiliau, hyder a chymhwyster mewn mathemateg, yn enwedig y rhai a oedd yn cael trafferth gyda'r pwnc, neu'r rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mynegwyd barn gymysg am addasrwydd y cymhwyster i ddysgwyr gallu uwch, ac awgrymodd rhai y dylid cynnig y cymhwyster i bob dysgwr.
- Prif thema arall yn adborth yr ymatebwyr oedd pryder ynghylch a fyddai'r cymhwyster bach yn cael ei gydnabod gan sefydliadau addysg bellach ac uwch a chyflogwyr. Roedd hyn yn gysylltiedig yn bennaf â maint y cymhwyster. Teimlai eraill fod y cymhwyster yn ddryslyd ac yn ddiangen. Awgrymodd rhai a fynegodd y farn hon y dylai addysgu da a'r cymwysterau presennol fod yn ddigonol i alluogi a dangos dilyniant mewn mathemateg. Roedd eraill yn ofni y byddai'r cymhwyster arfaethedig yn dibrisio'r TGAU mewn Mathemateg, ac na fyddai'n rhoi'r sgiliau yr oedd eu hangen ar ddysgwyr ar gyfer astudio pellach a gyrfaoedd.

- Mynegwyd barn gymysg am addysgu ac asesu'r cymhwyster ar y sgrin. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai dull ar y sgrin yn helpu i greu cymhwyster cyfoes. Nododd eraill y byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd o ran pryd y gallai dysgwyr gwblhau eu hasesiadau. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn cyfleu y byddai dull ar y sgrin yn rhy heriol i rai dysgwyr; yn amhriodol ar gyfer dysgu mathemateg; yn lleihau gallu dysgwyr i ddangos eu gwaith cyfrifo; yn gallu annog athrawon i hyfforddi dysgwyr i basio asesiadau yn hytrach na deall mathemateg; ac y gallai alluogi neu annog twyllo.
- Er bod rhywfaint o deimlad bod caniatáu ailsefyll yn bwysig gan y gallai gynyddu siawns dysgwyr o basio'r cymhwyster, nododd rhai ymatebwyr y gallai fod angen i rai dysgwyr gwblhau'r asesiad droeon er mwyn llwyddo, gan effeithio ar eu lles, eu cymhelliant, a'u mwynhad o fathemateg. Roeddent hefyd yn pryderu y gallai hyn effeithio ar werth y cymhwyster.
- Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder pellach ynghylch sut y byddai'r cymhwyster yn ymgorffori sgiliau hanfodol a sut y byddai'n eistedd ochr yn ochr â'r cymwysterau arfaethedig newydd megis TGAU Mathemateg a Rhifedd a'r Dystysgrif Her Sgiliau ddiwygiedig.
- Mynegwyd pryderon ynghylch gorgyffwrdd posibl rhwng y cymhwyster bach a'r llwybrau presennol neu gymwysterau lefel mynediad, a'r angen i ddysgwyr astudio'r cymhwyster bach ochr yn ochr â'r TGAU Mathemateg a Rhifedd newydd arfaethedig. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid cynnig y cymhwyster bach yn rhan o gyfres o gymwysterau hyfedredd rhifiadol y gellid eu cyfuno'n TGAU lawn, neu y gallai fod yn rhan o ddyfarniad dwbl mewn mathemateg a rhifedd.
- Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai ysgolion yn ei chael hi'n anodd darparu'r cymhwyster arfaethedig o fewn eu hamserlenni am nad yw amserlenni'n cael eu cynllunio i wneud lle i gymwysterau llai o faint. Dywedodd eraill y byddai ceisio darparu'r cymhwyster arfaethedig o fewn amserlen sydd eisoes yn llawn yn rhoi athrawon a dysgwyr dan bwysau, ac y gallai hefyd leihau'r hyn a gynigir gan y cwricwlwm.

7.3. Cynnig 3

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i greu cymhwyster Lefel 2 'gwneud-i-Gymru' mewn Mathemateg Ychwanegol?

Ffigur 18: Lefel y cytundeb â chynnig 3 o fewn y Maes Mathemateg a Rhifedd



Gwnaeth cyfanswm o 236 o bobl sylwadau ar y cynnig hwn. Roedd dros bedwar o bob pump o bobl (81%) yn cytuno â'r cynnig gan gynnwys 58% a oedd yn cytuno'n gryf. Roedd cytundeb yn debyg ar y cyfan ar draws y tri phrif is-grŵp. Ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol, roedd degfed yn anghytuno'n gyffredinol, gyda 5% yn anghytuno'n gryf.

Rhoddodd pedwar o bob deg (41%, 97 o bobl) o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn sylw ysgrifenedig hefyd i esbonio eu hateb. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod.

- Mynegodd y rhan fwyaf o'r rhai a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn y byddai cymhwyster Lefel 2 mewn Mathemateg Ychwanegol o fudd i ddysgwyr sy'n mwynhau ac yn rhagori mewn mathemateg. Roeddent yn teimlo y byddai'r cymhwyster yn helpu dysgwyr i bontio o TGAU i Safon Uwch; yn estyn eu galluoedd a'u sgiliau; yn eu hannog i ddilyn gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â mathemateg; ac i symud ymlaen mewn pynciau eraill lle mae sgiliau mathemateg yn fuddiol. Fodd bynnag, nododd rhai y byddai angen i gyflogwyr fod yn fwy ymwybodol o'r cymhwyster.
- Un thema allweddol arall yn yr adborth oedd y byddai'r cymhwyster yn sicrhau bod cymwysterau cyfatebol ar gael i ddysgwyr yng Nghymru a Lloegr i'w gwneud yn deg i ddysgwyr yn y ddwy awdurdodaeth. Roedd rhywfaint o awgrym y dylai'r cymhwyster fod ar gael i bob dysgwr ym mhob ysgol.
- Roedd teimlad eithaf cryf y dylai'r cymhwyster newydd adlewyrchu'r cymhwyster mathemateg ychwanegol presennol sydd eisoes yn cael ei gynnig gan rai ysgolion. Roedd y rhai a fynegodd y farn hon yn teimlo bod y

cymhwyster presennol yn addas i'r diben. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a fynegodd y farn hon hefyd yn teimlo nad oedd angen y cymhwyster newydd am eu bod yn hapus â'r TGAU presennol mewn Mathemateg Ychwanegol.

- Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai ysgolion yn ei chael hi'n anodd cyflwyno'r cymhwyster arfaethedig o fewn eu hamserlenni. Felly, gallai gael ei addysgu yn ystod amser egwyl neu amser cinio neu leihau'r amser sydd ar gael ar gyfer addysgu'r TGAU mathemateg. Amlygodd rhai ymatebwyr hefyd fod angen darparu adnoddau priodol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cymhwyster newydd mewn pryd.

8. Gwyddoniaeth a Thechnoleg

8.1. Cynnig 1

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i adolygu a diwygio TGAU mewn Cyfrifiadureg, yr Amgylchedd Adeiledig, Dylunio a Thechnoleg, a Thechnoleg Ddigidol?

Ffigur 19: Lefel y cytundeb â phob pwnc yng nghynnig 1 yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg



Ymatebodd ychydig o dan 350 o bobl i'r cynnig hwn ar gyfer pob un o'r pedwar cymhwyster sy'n cael eu hystyried i'w hadolygu. Mae'r darlun cyffredinol yn un o gefnogaeth, er bod niferoedd gweddol fawr yn rhoi ymateb niwtral 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' neu'n dweud 'ddim yn gwybod'. Roedd y lefel isaf o gytundeb ond hefyd y lefel uchaf o sgoriau niwtral ar gyfer TGAU yr Amgylchedd Adeiledig. Gallai hyn fod oherwydd bod y pwnc yn llai cyfarwydd. Roedd degfed yn anghytuno â'r cynnig ar gyfer Technoleg Ddigidol ac ychydig yn llai ar gyfer Cyfrifiadureg (7%), Dylunio a Thechnoleg (8%), a'r Amgylchedd Adeiledig (9%).

Rhoddodd bron i bedwar o bob deg (39%, 137 o bobl) o'r rhai a ymatebodd sylw ysgrifenedig hefyd. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod.

- Y pwnc a drafodwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yr angen i ddiwygio'r cymwysterau TGAU a gwmpesir gan y cynnig. Dywedodd rhai mai'r rheswm am

hyn oedd bod angen i'r cymwysterau ddarparu cynnig hyblyg, wedi'i deilwra a chytbwys i ddysgwyr. Teimlai eraill fod angen diwygio i ddisodli cynnwys hen ffasiwn y cymwysterau presennol (yn enwedig TGAU Cyfrifiadureg); ac i alinio'r cymwysterau â'r cwricwlwm newydd, er nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell i rai. Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod y byddai angen adolygu a diwygio rhai o'r cymwysterau yn y cynnig yn fanylach nag eraill.

- Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at yr angen i ddiweddaru cynnwys y cymwysterau'n rheolaidd er mwyn sicrhau esblygiad cyflym eu disgyblaethau. Dywedwyd hefyd y dylai'r cymwysterau fod yn gymharol gyflym a hawdd eu diweddaru; ymgorffori technoleg; adlewyrchu diwydiant; a pheidio â dyblygu cymwysterau sy'n bodoli eisoes. Gwnaed sawl awgrym ynglŷn â chynnwys ac asesiad y cymwysterau arfaethedig.
- Nododd rhai ymatebwyr y byddai'r ystod o gymwysterau a gynigir o fewn y cynnig hwn yn apelio at ddysgwyr â gwahanol ddiddordebau ac yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu sgiliau eang eu cwmpas a ystyriwyd yn hanfodol ar gyfer bywydau a gyrfaoedd dysgwyr yn y dyfodol.
- Wrth adolygu a diwygio'r cymwysterau TGAU hyn, nododd rhai ymatebwyr y dylid egluro'r cysylltiadau rhwng y pynciau, er bod rhywfaint o deimlad bod elfennau o'r cymwysterau presennol yn gorgyffwrdd gormod.
- Roedd sylwadau rhai ymatebwyr yn ymwneud â'r angen i gadw'r cymwysterau TGAU ar wahân a pheidio â'u cyfuno'n un cymhwyster cyffredinol yn y Maes hwn, gan gefnogi cynnig Cymwysterau Cymru. Dywedasant y byddai hyn yn helpu i gadw uniondeb y pynciau, ac yn cefnogi dysgwyr i symud ymlaen i astudio ymhellach.
- Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod y TGAU Cyfrifiadureg bresennol yn rhy anodd, yn enwedig i ddysgwyr llai galluog. Crybwyllodd rhai y dylai'r holl gymwysterau TGAU a gwmpesir gan y cynnig hwn fod o lefel anhawster hydrin.
- Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr angen i sicrhau bod y dechnoleg, y feddalwedd a'r offer gofynnol ar gael i ysgolion i alluogi pob dysgwr i gael yr un cymwysterau. Dywedodd eraill fod angen hyfforddiant ar staff addysgu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau ar draws y pynciau.

8.2. Cynnig 2

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu TGAU Peirianneg a Gweithgynhyrchu newydd?

Ffigur 20: Lefel y cytundeb â chynnig 2 yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg



Gwnaeth cyfanswm o 352 o bobl sylwadau ar y cynnig hwn. Roedd dau o bob tri o bobl (66%) yn cytuno â'r cynnig hwn, a dim ond 6% oedd yn anghytuno. O'i ystyried fesul is-grŵp, roedd y gefnogaeth yn uwch byth ymhlith dysgwyr a rhieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd. Ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol, roedd 62% yn cytuno â'r cynnig a 7% yn anghytuno. Atebodd cyfran gymharol uchel (15%) o weithwyr addysg proffesiynol 'ddim yn gwybod' i'r cynnig hwn.

Rhoddodd dros draean (36%, 126 o bobl) o'r rhai a ymatebodd sylw ysgrifenedig hefyd. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod.

- Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a wnaeth sylwadau ar y cynnig yn pwysleisio perthnasedd a phwysigrwydd cynnig y cymhwyster arfaethedig. Roeddent yn teimlo y byddai'n arfogi dysgwyr i symud ymlaen i astudio pellach a gyrfaoedd mewn peirianneg a gweithgynhyrchu; yn darparu sgiliau ymarferol bob dydd; yn caniatáu i ddysgwyr gymhwyso'r sgiliau y maent wedi'u dysgu mewn cymwysterau eraill; ac yn rhoi cyfle defnyddiol i astudio peirianneg a gweithgynhyrchu yn ieuengach.
- Roedd rhai o'r rhai a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn yn pryderu y byddai ysgolion yn ei chael hi'n anodd darparu'r staff, yr offer a'r dechnoleg sydd eu hangen i ddarparu'r cymhwyster. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r angen i ysgolion uwchraddio eu gweithdai; deunyddiau prynu; recriwtio a hyfforddi staff arbenigol; a darparu profiadau y tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r cymhwyster arfaethedig yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen yn ddidrafferth i gymwysterau pellach yn y Maes. Dywedwyd y

dylai ysgolion a sefydliadau addysg bellach gydweithio i sicrhau bod hyn yn digwydd. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried llwybrau dilyniant a chysylltiadau â chymwysterau eraill yn ofalus wrth gynllunio'r cymhwyster.

- Roedd teimlad eithaf cryf y dylai'r cymhwyster arfaethedig fod yn addas i ddysgwyr gallu is a gallu uwch. Awgrymodd ymatebwyr y gallai hyn olygu cynnig dull damcaniaethol i ddysgwyr gallu uwch a phrofiad ymarferol ar gyfer dysgwyr gallu is; creu dau gymhwyster TGAU ar wahân mewn peirianneg a gweithgynhyrchu; neu gynnig cymhwyster lefel 1/2 yn ogystal â'r TGAU arfaethedig.
- Teimlai rhai y byddai'r cymhwyster yn gorgyffwrdd gormod â chymwysterau presennol yn y Maes, gan leihau gallu ysgolion i gynnig y gyfres lawn o gymwysterau, a chysgodi'r cymwysterau presennol. Roedd rhywfaint o deimlad y dylai'r cymhwyster fod yn opsiwn ychwanegol yn hytrach na disodli cymwysterau eraill yn y Maes.
- O ran cynllun y cymhwyster, awgrymodd ymatebwyr y dylai fod yn ymarferol; cael ei gyflenwi mewn gweithdai yn hytrach nag ystafelloedd dosbarth; ymgorffori datblygiadau newydd ym maes peirianneg a gweithgynhyrchu i adlewyrchu arferion y diwydiant; ac y dylai fod yn ddigon hyblyg i gael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Gwnaed sawl awgrym penodol ynglŷn â chynnwys a ffocws y cymhwyster.

8.3. Cynnig 3

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth newydd i ddisodli'r gyfres bresennol o TGAU gwyddoniaeth? Mae'r cymhwyster hwn yn debygol o fod tua'r maint dau TGAU.

Ffigur 21: Lefel y cytundeb â chynnig 3 yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg



Ymatebodd cyfanswm o 355 o bobl i'r cynnig hwn. Ymhlith yr holl ymatebwyr, roedd 42% yn cytuno â'r cynnig a 40% yn anghytuno, gan ddarparu rhaniad gweddol gyfartal mewn ymatebion. Roedd anghytundeb ddwywaith mor debygol ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol (49%) ag ydoedd ymhlith dysgwyr (22%), gyda rhieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd, yn disgyn rhwng y ddau grŵp arall.

Dim ond 16% (57 o bobl) o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn a roddodd sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

- Roedd rhywfaint o gefnogaeth i ddiwygio'r cynnig gwyddoniaeth presennol ar gyfer TGAU. Teimlai rhai y byddai'r TGAU newydd arfaethedig yn fwy addas i'r rhan fwyaf o ddysgwyr, gan alluogi'r rhai sy'n dymuno astudio cymwysterau ychwanegol mewn gwyddoniaeth i wneud hynny drwy'r cymwysterau bach ychwanegol a drafodir yng nghynnig 4 yn y Maes hwn. Dywedodd eraill a gefnogai'r cynnig y byddai'n sicrhau *"mwy o gydraddoldeb a chysondeb"* o gynnig ledled Cymru, ac y byddai'n symlach i ysgolion ei gynnig ac i rieni a gofalwyr, a chyflogwyr y dyfodol ei ddeall. Fodd bynnag, roedd llawer yn pryderu y byddai'r newidiadau arfaethedig yn lleihau opsiynau dysgwyr.
- Un pryder penodol oedd na fyddai un TGAU Gwyddoniaeth yn caniatáu i ddysgwyr arbenigo a herio eu hunain mewn disgyblaeth benodol. I'r gwrthwyneb, teimlai ambell un y byddai un llwybr yn sicrhau y gallai pob dysgwr fanteisio ar yr un cyfleoedd dilyniant mewn gwyddoniaeth. Awgrymodd rhai mai cymwysterau TGAU ar wahân yn y gwyddorau yw'r sylfaen gryfaf ar gyfer astudio pellach a gyrfaoedd. Dywedwyd y gallai'r newidiadau arfaethedig felly leddfu brwdfrydedd dysgwyr am yrfaoedd mewn gwyddoniaeth, ac

anfanteisio dysgwyr yng Nghymru o'u cymharu â'r rhai mewn rhannau eraill o'r DU.

- Er bod rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r TGAU Gwyddoniaeth arfaethedig yn helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu astudio'r un cymhwyster, gan roi cyfle cyfartal iddynt, teimlai rhai y byddai'r TGAU Gwyddoniaeth arfaethedig yn rhoi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) dan anfantais, a oedd yn llai tebygol o basio TGAU *"dyfarniad dwbl"* na *"dyfarniad sengl"* neu gymwysterau sy'n debyg o hygyrch. Gwnaed sylwadau tebyg mewn perthynas â dysgwyr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD). Dywedwyd hefyd y gellid hefyd rhoi dysgwyr mwy galluog o dan anfantais drwy fethu ag arbenigo'n ddigonol yn eu disgyblaeth neu ddisgyblaethau gwyddoniaeth dewisol.
- Byddai cyfuno bioleg, cemeg a ffiseg mewn TGAU yn arwain at *"wanhau"* neu *"ddibrisio'r"* pynciau a fyddai'n rhoi gwyddonwyr y dyfodol Cymru dan anfantais, yn ôl rhai. Rhybuddiodd eraill a oedd o blaid y cymhwyster arfaethedig na ddylai'r pynciau gwyddoniaeth unigol golli eu hunaniaeth unigryw.
- Teimlai rhai ymatebwyr fod gormod o ffocws ar bynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) ar hyn o bryd ar draul pynciau eraill. Roedd eraill yn anghytuno, gan bwysleisio bod canolbwyntio ar wyddoniaeth yn bwysicach nag erioed. I rai, dim ond drwy arbenigo yn y gwyddorau y gellir sicrhau hyn.
- Dywedwyd efallai y bydd angen llai o athrawon yn y dyfodol oherwydd y byddai'r cymhwyster gwyddoniaeth *"dyfarniad dwbl"* yn gofyn llai o oriau addysgu na *"dyfarniad triphlyg"*. Gall y cynnig hefyd effeithio ar recriwtio a chadw athrawon; ac anfanteisio athrawon o Gymru sy'n chwilio am swyddi yn Lloegr, yn ôl rhai ymatebwyr. Nododd eraill nad yw'r newidiadau arfaethedig yn ofynnol nac yn ddymunol ar hyn o bryd. Yn fwy cadarnhaol, roedd rhywfaint o deimlad y byddai'r TGAU Gwyddoniaeth arfaethedig yn llawer haws i ysgolion ei gweinyddu, yn lleihau dibyniaeth ar athrawon arbenigol, ac yn lleihau cynnwys y cymhwyster.
- Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am y cynnig gan rai ymatebwyr, yn enwedig mewn perthynas â maint y TGAU Gwyddoniaeth newydd; y gwahaniaeth rhwng y TGAU Gwyddoniaeth arfaethedig a'r cymhwyster dyfarniad dwbl cyfredol; ynghylch rhannu a chyflenwi amser dysgu; a'r cynnig ar gyfer dysgwyr llai galluog.
- Dywedodd rhai ymatebwyr na fyddent ond yn cefnogi'r TGAU Gwyddoniaeth arfaethedig pe bai dysgwyr hefyd yn gallu mynd ar drywydd *"dyfarniad triphlyg"* a *"dyfarniad sengl"* ochr yn ochr ag ef. Awgrymiadau eraill oedd: cynnwys daeareg o fewn y cwricwlwm fel disgyblaeth annibynnol; un TGAU Gwyddoniaeth sy'n cyfateb i dri chymhwyster TGAU i ddysgwyr gallu uwch; a chyflwyno'r opsiwn i ymgymryd â Safon Uwch gwyddoniaeth yn gynnar i'r rhai sydd â'r awydd a'r ddawn ar ei chyfer.

8.4. Cynnig 4

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cyfres o gymwysterau gwyddoniaeth bach y gellir eu cymryd yn ychwanegol at y cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth newydd arfaethedig?
Mae'r unedau hyn yn debygol o fod yn gyfwerth o ran maint naill ai un rhan o dair neu ddwy ran o dair o TGAU.

Ffigur 22: Lefel y cytundeb â chynnig 4 yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg



Gwnaeth cyfanswm o 350 o bobl sylwadau ar y cynnig hwn. Ar y cyfan, roedd 42% yn cytuno â'r cynnig ac 37% yn anghytuno. Roedd gweithwyr addysg proffesiynol yn llai tebygol o gytuno (34%) ac yn fwy tebygol o anghytuno (45%) nag is-grwpiau eraill.

Rhoddodd ychydig dros hanner (51%, 180 o bobl) o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

- Y pryder mwyaf cyffredin a godwyd mewn perthynas â'r cynnig am gymwysterau gwyddoniaeth bach ychwanegol oedd y byddai'n golygu problemau sylweddol i ysgolion o ran amserlennu, staffio ac adnoddu.
- Roedd rhywfaint o deimlad y byddai syniad cymwysterau bach yn ddryslyd i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr, a chyflogwyr. Ymhlith y pryderon pellach a godwyd oedd na fyddai'r cymwysterau gwyddoniaeth bach arfaethedig yn cael eu cydnabod na'u gwerthfawrogi gan sefydliadau addysgol a chyflogwyr yn y dyfodol; ac y byddent yn rhoi dysgwyr yng Nghymru dan anfantais o'u cymharu â'r rhai mewn rhannau eraill o'r DU.
- Un mater arall a godwyd yn aml oedd y byddai'r cynnig hwn yn ffafrio ysgolion annibynnol a gwladol mwy o faint gan anfanteisio ysgolion llai o faint a/neu wledig, gan gynyddu annhegwch yn y ddarpariaeth ledled Cymru. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r cymwysterau arfaethedig, ar y cyd, yn briodol i ddysgwyr llai galluog pe baent yn cael eu cynnig fel dewis yn lle'r TGAU Gwyddoniaeth newydd arfaethedig.

- Roedd rhai’n cefnogi'r cymwysterau gwyddoniaeth bach ychwanegol arfaethedig oherwydd y byddent yn cynnig mwy o ddewis a hyblygrwydd i ddysgwyr, yn dyfnhau mwynhad a datblygiad sgiliau, ac yn cefnogi dilyniant mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, dywedodd eraill y gallai'r cynnig gyfyngu ar ddewis dysgwyr, ac y gallai eu harwain at ddewis eu hopsiynau arbenigol yn rhy gynnar.
- Gofynnodd rhai ymatebwyr am wybodaeth bellach am y cynnig mewn perthynas ag oriau addysgu disgwyliedig; beth yn union fyddai gwerth y cymwysterau gwyddoniaeth bach ychwanegol arfaethedig; a ellid eu hagregu i ffurfio TGAU gyfan; ac a fyddent yn gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd y cymwysterau gwyddoniaeth bach ychwanegol arfaethedig os yw'r cynnig ar gyfer y TGAU Gwyddoniaeth newydd yn cael ei ddatblygu, yn enwedig i'r rhai sy'n ceisio symud ymlaen i Safon Uwch a’r tu hwnt.
- Dywedodd rhai y dylai’r pynciau a gynigiwyd fel *"ychwanegion"* - daeareg, newid yn yr hinsawdd, hanes naturiol a gwyddor amgylcheddol er enghraifft - fod yn rhan o'r arlwy TGAU Gwyddoniaeth. Yn wir, nododd rhai na ddylai fod angen yr ychwanegion os yw'r TGAU Gwyddoniaeth newydd arfaethedig yn gadarn ac wedi'i chynllunio'n briodol.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid caniatáu i ysgolion gyfuno'r cymwysterau gwyddoniaeth bach ychwanegol mewn *"pecynnau"* neu *"unedau"* TGAU cyfan i ddysgwyr. Yr awgrymiadau eraill oedd: cynnig TGAU ychwanegol ddewisol yn cynnwys tri dewis o chwe modiwl; a chynnwys opsiynau cemeg, ffiseg a bioleg pellach.

9. Sgiliau Cyfannol

9.1. Cynnig 1

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ddiwygio'r Dystysgrif Her Sgiliau i'w gwneud yn symlach ac yn fwy hylaw, gyda ffocws ar asesu'r Sgiliau Cyfannol: Creadigrwydd ac Arloesi, Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, Effeithiolrwydd Personol a Chynllunio a Threfnu?

Ffigur 23: Lefel y cytundeb â'r cynnig Sgiliau Cyfannol



Ymatebodd cyfanswm o 185 o bobl i'r cynnig hwn. Ymhlith yr holl ymatebwyr, roedd dros saith o bob deg (72%) yn cytuno â'r cynnig. Cododd hyn i 75% ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol ac i 92% ymhlith yr is-grŵp rhieni / gofalwyr. Dylid nodi bod yr ymatebion cyffredinol i'r cynnig hwn yn is nag ar gyfer y rhan fwyaf o gynigion eraill, a dim ond 25 o ymatebion gan rieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd.

Rhoddodd pedwar o bob deg (40%, 74 o bobl) o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion ysgrifenedig yn cefnogi'r cynnig. Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r ffocws ar y sgiliau hyn yn y cwricwlwm a'r ffaith eu bod yn cael eu cynnwys, yn credu bod y cymhwyster yn cael ei werthfawrogi gan gyflogwyr; ac yn awgrymu y byddai cymhwyster diwygiedig yn ddefnyddiol i amlygu pedwar diben[14] y cwricwlwm newydd a'u pwysigrwydd.

[14] Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r uchelgais ar gyfer dylunio cwricwlwm ysgolion. Maent yn datgan y dylai dysgwyr ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes; yn gyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith; yn ddinasyddion moesegol, gwybodus yng Nghymru a'r byd; ac yn unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma ar wefan Llywodraeth Cymru.

- Canmolwyd y cymhwyster presennol hefyd am ddiwallu anghenion pob dysgwr; cefnogi'r broses o drosglwyddo i Fagloriaeth Sgiliau Uwch newydd Cymru; hyrwyddo dewis dysgwyr; ac am roi cyfle i ddysgwyr ymarfer sgiliau ymchwil.
- Teimlai sawl ymatebydd fod angen symleiddio'r Dystysgrif Her Sgiliau (THS) bresennol a'i gwneud yn fwy hylaw i ddysgwyr ac athrawon. Awgrymodd rhai y dylid gollwng yr Her Gymunedol. Roedd eraill yn teimlo y gellid rhoi tystiolaeth ohoni'n wahanol neu gael profiad gwaith yn ei lle.
- Dywedodd rhai ymatebwyr fod elfennau o'r THS bresennol yn "*ailadroddus*", a bod dyblygu sgiliau a thasgau yn golygu bod dysgwyr yn colli diddordeb mewn cymhwyster sydd fel arall yn ddefnyddiol.
- Dywedodd sawl ymatebydd fod angen i'r THS gael ei "*hailfrandio*". Roedd barn amrywiol ar sut y dylid gwneud hyn, gan gynnwys sicrhau ei bod yn cael ei hystyried yn gymhwyster cyfatebol i gymwysterau TGAU, newid ei henw, neu roi mwy o amser iddi yn y cwricwlwm.
- Soniodd rhai ymatebwyr mai asesu yw'r agwedd o'r THS y mae angen ei diwygio fwyaf. Awgrymodd un ymatebydd y gellid ei hasesu drwy waith digidol yn unig. Gwnaeth ambell un arall hefyd gais i ailwampio'r cynnwys a'r asesu yn llwyr.
- Gwnaed nifer o awgrymiadau eraill ynghylch sut y gellid diwygio'r cymhwyster. Roedd y rhain yn cynnwys cyfuno'r THS â'r Maes Iechyd a Lles, neu ag addysg hawliau dynol; gwneud y THS yn ddewisol; neu ddatblygu'r cwricwlwm cyn-TGAU i gefnogi'r gwaith o gydnabod a deall y sgiliau a asesir yn y THS.
- Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig, naill ai gan awgrymu y dylid hepgor y THS yn gyfan gwbl, neu y dylid cyflawni'r canlyniadau ar draws y Meysydd eraill.

10. Asesiad Effaith

Wrth ddatblygu'r cynigion yn yr ymgynghoriad, ystyriodd Cymwysterau Cymru yr effeithiau y gallai pob cynnig eu cael. Gofynnodd yr arolwg ar-lein a oes unrhyw gamau ychwanegol y gallai Cymwysterau Cymru eu cymryd i leihau'r effeithiau a nodwyd ganddynt. Gofynnodd gwestiynau hefyd am effaith y cynigion ar unigolion neu grwpiau â nodweddion gwarchodedig; ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac mewn perthynas â thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Gofynnodd yr arolwg ar-lein hefyd a allai'r cynigion gael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill.

10.1. Cwestiwn effaith 1

O ran yr effeithiau yr ydym wedi'u nodi, a oes unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i leihau effeithiau negyddol posibl?

Rhoddodd cyfanswm o 99 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn penagored hwn. Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol o'r sylwadau.

- Gwnaeth llawer o'r ymatebwyr awgrymiadau penodol ynghylch sut y gallai'r cynigion ddiwallu anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Roedd y rhain yn cynnwys creu cymwysterau lefel mynediad gyda llwybrau dilyniant priodol ym mhob pwnc; cyflwyno asesiadau haenog a pharhaus; cynyddu'r defnydd o gymwysterau ymarferol a phrentisiaethau dros arholiadau ysgrifenedig; cyfeirio at rwymedigaethau ysgolion i wneud addasiadau i gynyddu cynhwysiant o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 o fewn canllawiau cymwysterau; a rhoi mwy o sylw i niwroamrywiaeth.
- Eglurodd llawer o ymatebwyr yr hoffent weld llwyth gwaith athrawon yn lleihau. Roeddent yn teimlo y gellid cyflawni hyn drwy wneud llai o newidiadau i feysydd llafur; a mwy o sicrwydd a rhybudd o newidiadau sydd i ddod.
- Galwodd rhai ymatebwyr am fwy o bwyslais ar asesiadau dan arweiniad athrawon dros arholiadau er mwyn lleihau'r pwysau ar ddysgwyr.
- Beirniadodd rhai'r broses ymgynghori, gan ddweud na ddylai fod wedi digwydd yn ystod y pandemig, ac nad oedd yn annog digon o ddadlau a mewnbwn. Awgrymodd eraill y dylid ymgynghori ag athrawon ynghylch diwygio cymwysterau yn barhaus.
- Sylwodd un ymatebydd nad oedd yr ymgynghoriad yn cyflwyno unrhyw ganfyddiadau ar yr asesiad effaith a gynhaliwyd ac nad oedd ychwaith wedi nodi unrhyw effeithiau penodol na materion cydraddoldeb. Galwodd un arall am gynllunio cymwysterau i gyfyngu ar effeithiau andwyol ar ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.
- Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith y dylid rhyddhau pob manyleb cymhwyster cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg a dogfennau cysylltiedig ar

yr un pryd. Ystyriwyd bod mynediad cyfartal i offer a meddalwedd cyfrifiadurol mewn ysgolion hefyd yn bwysig.

- Beirniadodd rhai ymatebwyr yr ymgynghoriad am eu bod yn teimlo ei fod yn hyrwyddo'r gyfres bresennol o gymwysterau TGAU, ac nad oedd y cynigion yn cyd-fynd yn ddigonol â'r cwricwlwm newydd.
- Amlygwyd materion posibl o ran anghydraddoldeb mynediad ledled Cymru gan rai ymatebwyr. Y rhain oedd bod y cymwysterau bach arfaethedig yn mentro cael eu cynnig mewn rhai ardaloedd ac nid eraill; y gallai'r cynnig i beidio â datblygu TGAU Dawns gwneud-i-Gymru gael effaith negyddol ar ddysgwyr anabl a'r *"rheini o gefndiroedd ethnig a diwylliannol amrywiol"*; pwysigrwydd sicrhau bod yr holl gymwysterau gwneud-i-Gymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg; ac efallai na fydd dysgwyr mewn ysgolion llai yn gallu cael at yr un ystod o gymwysterau o'u cymharu â'u cyfoedion mewn ysgolion mwy o faint.
- Mae'n debyg nad yw effaith bosibl y cynigion ar ailsefyll TGAU mewn mathemateg, Cymraeg neu Saesneg wedi'i hystyried yn y cynigion, yn ôl un ymatebydd. Roedd un ymatebydd arall a oedd yn gweithio mewn addysg ôl-16 yn pryderu am yr effaith y bydd ailstrwythuro TGAU yn ei chael ar Safon Uwch.

10.2. Cwestiwn effaith 2

A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig nad ydym wedi'u nodi?

Ffigur 24: Cyfran yr ymatebwyr yn nodi effeithiau ychwanegol y cynigion ar y rhai â nodweddion gwarchodedig



Atebodd cyfanswm o 190 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd 8% yn credu bod effeithiau cadarnhaol ychwanegol, ac roedd 17% yn credu bod effeithiau negyddol ychwanegol. Dylid nodi y gallai ymatebwyr nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol. Dywedodd tri o bob pump (61%) nad oeddent yn siŵr a oedd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill, a dywedodd 17% arall nad oedd unrhyw effeithiau eraill.

Rhoddodd cyfanswm o 30 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Trafodir y prif themâu a amlinellir yn eu hadborth isod.

- Teimlai llawer o'r ymatebwyr y gallai'r cynigion roi dysgwyr llai galluog dan anfantais, drwy ddiffyg cymwysterau lefel 1 neu lefel mynediad yn Saesneg, maint mwy rhai o'r cymwysterau arfaethedig, y bwriad i gyfuno TGAU mewn Cymraeg iaith a llenyddiaeth a Saesneg iaith a llenyddiaeth, a chynigion yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg.
- Roedd rhywfaint o deimlad hefyd y gallai dysgwyr ag anableddau sy'n arwain at fwy o absenoldeb ei chael hi'n anoddach dal i fyny wrth astudio'r cymwysterau TGAU cyfun, ac y gallai dysgwyr llai galluog gael trafferth gyda'r TGAU gyfunol Cymraeg.
- Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r cynigion yn helpu i ddiwallu anghenion dysgwyr llai galluog drwy gynnig cymwysterau sy'n cael eu hasesu ar-lein,

dulliau sgiliau integredig, a mwy o ehangder dysgu, yn enwedig mewn gwyddoniaeth.

- Codwyd yr angen i sicrhau bod pob cymhwyster yn cynnig her briodol i ddysgwyr o bob gallu, gyda dymuniad i osgoi'r risg y gwelir bod rhai cymwysterau yn fwy *"academaidd"* nag eraill.
- Amlygodd ychydig o ymatebwyr fod angen sicrhau nad oedd y cynigion yn creu rhwystrau newydd nac yn methu â chwalu'r rhwystrau presennol i ddysgwyr o gefndiroedd llai cyfoethog.
- Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell i sicrhau y byddai cymwysterau yng Nghymru yn sicrhau newid cadarnhaol ac yn addas i ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig.

10.3. Cwestiwn effaith 3

A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nad ydym wedi'u nodi?

Ffigur 25: Cyfran yr ymatebwyr yn nodi effeithiau ychwanegol y cynigion ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg



Atebodd cyfanswm o 189 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Dywedodd 16% fod effeithiau negyddol eraill, a dywedodd 8% fod effeithiau cadarnhaol eraill. Dylid nodi y gallai ymatebwyr nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol. Dywedodd tua hanner (51%) nad oeddent yn siŵr a oedd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol a dywedodd tuag un o bob pedwar (27%) nad oedd unrhyw effeithiau eraill.

Rhoddodd 32 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod.

- Teimlai rhai ymatebwyr y gallai dysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg fod dan anfantais oherwydd gorddibyniaeth Cymru ar gymwysterau a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr, gan ddatgan y dylai pob cymhwyster fod ar gael i'r un graddau yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Awgrymodd rhai y gallai'r cynigion gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy drochi dysgwyr mewn llenyddiaeth Gymraeg; integreiddio'r Gymraeg drwy'r holl gwricwlwm; a sicrhau bod y cymwysterau arfaethedig wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer Cymru.
- Dywedodd ambell un y byddai'n croesawu cyflwyno cymhwyster Celfyddydau Mynegiannol integredig cyfrwng Cymraeg ynghyd â chyfres o gymwysterau bach Cymraeg eu hiaith ar gyfer dysgwyr ôl-16.

10.4. Cwestiwn effaith 4

A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol nad ydym wedi'u nodi mewn perthynas â thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg?

Ffigur 26: Cyfran yr ymatebwyr yn nodi effeithiau ychwanegol y cynigion mewn perthynas â thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol



Atebodd cyfanswm o 191 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Nododd 7% effeithiau cadarnhaol ychwanegol a nododd 20% effeithiau negyddol ychwanegol. Dywedodd ychydig o dan hanner (46%) nad oeddent yn siŵr a oedd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol a dywedodd 29% arall nad oedd unrhyw effeithiau eraill.

Rhoddodd 35 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod.

- Nododd dau ymatebydd effeithiau cadarnhaol ychwanegol. Dywedasant y gallai'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, a sicrhau parch ati, drwy sicrhau dewis cyfartal, cydlynol a dwyieithog o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14–16 oed.
- Fel y nodwyd mewn mannau eraill, roedd rhywfaint o deimlad y gallai gorddibynnu ar gymwysterau a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr anfanteisio dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Dylai cymwysterau ac adnoddau addysgu a dysgu yn y Gymraeg a'r Saesneg gael eu datblygu ochr yn ochr â'i gilydd a bod ar gael ar yr un pryd, yn ôl rhai ymatebwyr.

- Teimlai rhai ymatebwyr y gallai'r cynigion Cymraeg yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu arwain mwy o ddysgwyr yng Nghymru at ddewis addysg cyfrwng Saesneg dros ysgolion cyfrwng Cymraeg.

10.5. Cwestiwn effaith 5

A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill nad ydym wedi'u nodi?

Ffigur 27: Cyfran yr ymatebwyr yn nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill y cynigion



Atebodd cyfanswm o 188 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Nid oedd un o bob pedwar (26%) yn credu bod unrhyw effeithiau eraill. Nododd 5% effeithiau cadarnhaol eraill a nododd 15% effeithiau negyddol eraill. Roedd bron i dri o bob pump (58%) yn ansicr a oedd unrhyw effeithiau anhysbys.

Rhoddodd 24 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod.

Tynnodd un ymatebydd sylw at effeithiau cadarnhaol: mwy o gydweithio rhwng staff, rhannu arfer da, ac atgyfnerthu medrau allweddol i ddysgwyr. Amlygodd yr holl sylwadau eraill effeithiau negyddol, a grynhoir isod.

- Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd y cynigion yn cyd-fynd yn ddigon agos â'r Cwricwlwm i Gymru newydd. Roeddent yn pryderu na fydd addysg yng Nghymru yn gwella oni bai bod pob dysgwr yn gallu cael at gymwysterau a llwybrau addas sy'n gwireddu dibenion ac egwyddorion y cwricwlwm newydd.
- Teimlai un ymatebydd y byddai'r cynigion yn creu dewisiadau cul sy'n cyfyngu ar opsiynau'n rhy gynnar yn hytrach na meithrin dysgu eang. Dadleuodd yr ymatebydd hwn o blaid asesu mwy hyblyg sy'n caniatáu disgrifiad o gyrhaeddiad ar draws ystod ehangach o sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau.
- Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai cyfuno pynciau yn eu gwanhau ac yn peri iddynt golli eu hunaniaeth unigol.

- Dadleuodd rhai y byddai dileu cymwysterau TGAU yn y tair gwyddoniaeth ar wahân a'u disodli â'r TGAU Gwyddoniaeth arfaethedig yn atal dysgwyr rhag cyflawni gradd TGAU uwch mewn un wyddoniaeth; yn cyfyngu ar opsiynau dysgwyr mewn gwyddoniaeth; yn arwain at golli staff; ac yn y pen draw llai o ymgysylltu â gwyddoniaeth.
- Roedd dyfodol y ddarpariaeth ddawns i ddysgwyr 14 oed a throsodd yn bryder penodol i un ymatebydd a amlygodd faterion mynediad a chydraddoldeb pe nad allai dysgwyr gael at ddawns yn yr ysgol: cyfyngu ar gyfleoedd i ddysgwyr Cymru astudio dawns ar lefel ôl-16; anfanteisio dysgwyr benywaidd a'r rhai sy'n ddifreintiedig yn economaidd; a ffafrio dysgwyr yn ne Cymru lle mae darpariaeth ddawns breifat yn fwy hygyrch nag yng ngogledd Cymru.
- Galwodd un ymatebydd hefyd am ystyried yn ofalus adolygu a diwygio cymwysterau TAG/lefel 3, yng ngoleuni'r newidiadau arfaethedig i gymwysterau TGAU, gan ddweud bod angen ystyried yn llawn effaith y cynigion ar y sector ôl-16.
- Beirniadodd ambell un y dull ymgynghori, gan ddweud nad oedd cwestiynau'r ymgynghoriad yn caniatáu digon o ddadlau.
- Roedd un ymatebydd yn pryderu na fyddai ysgolion bach yn gallu cynnig yr ystod lawn o gymwysterau a gynigiwyd gan fod ganddynt lai o staff addysgu.
- Beirniadodd un ymatebydd y cynnig i sicrhau cymwysterau gwneud-i-Loegr ar gyfer Cymru mewn pynciau sy'n denu nifer isel o ddysgwyr, megis dawns, y Celfyddydau Mynegiannol amlddisgyblaethol, BSL, ac Iechyd a Lles. Dywedasant nad goblygiadau ariannol creu cymwysterau gwneud-i-Gymru yn y pynciau hyn ddylai fod y ffactor pwysicaf sy'n sbarduno eu datblygiad. Yn yr un modd, pwysleisiodd ymatebydd arall y byddai dysgwyr mewn ysgolion yng Nghymru dan anfantais oherwydd cymwysterau a wnaed ar gyfer Lloegr ac y byddent yn diystyru profiadau dysgu lleol.
- Cododd ymatebydd arall yr angen i sicrhau bod y cynigion yn arwain at gymwysterau sy'n diwallu anghenion pob dysgwr.
- Yn olaf, teimlai un ymatebydd y dylai ysgolion allu dylunio eu hasesiadau a'u cymwysterau lleol eu hunain, gan ddefnyddio arferion da cyfredol a blaenorol (e.e. Agored Cymru a'r Dystysgrif Addysg Uwchradd flaenorol [CSE]), a chynnwys cymunedau lleol, rhanddeiliaid ac arbenigwyr mewn dysgu.

Atodiad

Tabl o'r Ffigurau

Ffigur 1: Lefel y cytundeb â phob pwnc yng nghynnig 1 ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol 3
Ffigur 2: Lefel y cytundeb â chynnig 2 ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol 5
Ffigur 3: Lefel y cytundeb â chynnig 3 ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol 7
Ffigur 4: Lefel y cytundeb â chynnig 4 ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol 9
Ffigur 5: Lefel y cytundeb â chynnig 1 yn y Maes Iechyd a Lles 11
Ffigur 6: Lefel y cytundeb â phob pwnc yng nghynnig 2 yn y Maes Iechyd a Lles 13
Ffigur 7: Lefel y cytundeb â phob pwnc yng nghynnig 1 ym Maes y Dyniaethau 15
Ffigur 8: Lefel y cytundeb â chynnig 2 ym Maes y Dyniaethau 17
Ffigur 9: Lefel y cytundeb â chynnig 3 ym Maes y Dyniaethau 19
Ffigur 10: Lefel y cytundeb â chynnig 1 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu 21
Ffigur 11: Lefel y cytundeb â chynnig 2 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu 23
Ffigur 12: Lefel y cytundeb â chynnig 3 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu 25
Ffigur 13: Lefel y cytundeb â chynnig 4 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu 27
Ffigur 14: Lefel y cytundeb â chynnig 5 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu .**Error! Bookmark not defined.**~~29~~
Ffigur 15: Lefel y cytundeb â chynnig 6 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu 31
Ffigur 16: Lefel y cytundeb â chynnig 1 yn y Maes Mathemateg a Rhifedd 33
Ffigur 17: Lefel y cytundeb â chynnig 2 yn y Maes Mathemateg a Rhifedd 35
Ffigur 18: Lefel y cytundeb â chynnig 3 yn y Maes Mathemateg a Rhifedd 37
Ffigur 19: Lefel y cytundeb â phob pwnc yng nghynnig 1 yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg 39
Ffigur 20: Lefel y cytundeb â chynnig 2 yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg 41
Ffigur 21: Lefel y cytundeb â chynnig 3 yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg 43
Ffigur 22: Lefel y cytundeb â chynnig 4 yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg 45
Ffigur 23: Lefel y cytundeb â'r cynnig Sgiliau Cyfannol 47
Ffigur 24: Cyfran yr ymatebwyr yn nodi effeithiau ychwanegol y cynigion ar y rhai â nodweddion gwarchodedig 51
Ffigur 25: Cyfran yr ymatebwyr yn nodi effeithiau ychwanegol y cynigion ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg 53
Ffigur 26: Cyfran yr ymatebwyr yn nodi effeithiau ychwanegol y cynigion mewn perthynas â thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol 54
Ffigur 27: Cyfran yr ymatebwyr yn nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill y cynigion 56